Cwricwlwm Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

(Diwygiedig 2015)

# Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a phwyllgorau ymarferwyr a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; adrannau addysg awdurdodau lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychiolwyr ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i blant tair i saith oed yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau yn adrannau 102, 105 a 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru.

**Camau i'w cymryd**

Rhaid i benaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a phwyllgorau ymarferwyr a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru sicrhau bod y gofynion statudol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn unol â'r dyddiadau a nodir yn y rhagair.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig**

*Proffil y Cyfnod Sylfaen* (2015).

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25025 ISBN digidol 978 1 4734 4218 4

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y ddogfen hon i'w hargraffu ar faint A3.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Fframwaith y cwricwlwm** | **3** |
| **Y plentyn sy'n datblygu** | **4** |
| **Ymagweddau at ddysgu ac addysgu** | **4** |
| **Cynnwys pob plentyn** | **5** |
| **Sgiliau ar draws y cwricwlwm** | **6** |
| **Y Cwricwlwm Cymreig** | **7** |
| **Addysg grefyddol** | **7** |
| **Rhaglen addysg statudol: Meysydd Dysgu** | **8** |
| Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | 9 |
| Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | 12 |
| Maes Dysgu Datblygiad Mathemategol | 28 |
| Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg | 38 |
| Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | 42 |
| Maes Dysgu Datblygiad Corfforol | 45 |
| Maes Dysgu Datblygiad Creadigol | 48 |
| **Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen** | **51** |
| Deilliannau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | 52 |
| Deilliannau Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | 53 |
| Deilliannau Datblygiad Mathemategol | 57 |
| Deilliannau Datblygu'r Gymraeg | 59 |
| Deilliannau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | 60 |
| Deilliannau Datblygiad Corfforol | 61 |
| Deilliannau Datblygiad Creadigol | 63 |
| **Atodiad A: Deilliannau Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (gwreiddiol 2008)** | **65** |
| **Atodiad B: Deilliannau Datblygiad Mathemategol (gwreiddiol 2008)** | **66** |


# Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwricwlwm a'r deilliannau ar gyfer plant tair i saith oed yng Nghymru yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

Dyma Feysydd Dysgu statudol y Cyfnod Sylfaen:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (wedi'i ddiwygio o 2015 i gynnwys y cydran llythrennedd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) yn rhan o gynllunio, addysgu a dysgu'r Cyfnod Sylfaen)
- Datblygiad Mathemategol (wedi'i diwygio o 2015 i gynnwys cydran rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) yn rhan o gynllunio, addysgu a dysgu'r Cyfnod Sylfaen)
- Datblygu'r Gymraeg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol.

Ar gyfer pob Maes Dysgu mae'r **rhaglen addysg statudol** yn gosod allan hyn y dylid ei ddysgu i blant ac mae **Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen** yn pennu safonau perfformio disgwyliedig y plant.

## Dyddiadau gweithredu

Mae'r Meysydd Dysgu a'r datganiadau deilliannau ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol wedi cael eu diwygio, o fersiynau 2008, i ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Mae datganiadau deilliannau atodol wedi cael eu hychwanegu ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a Datblygiad Corfforol. Rhestrir eu hamserlenni gweithredu ar dudalen 2.

### Meysydd Dysgu

Mae'r Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn dod yn ofyniad cyfreithiol trwy gyfrwng Gorchymyn a wneir gan Lywodraeth Cymru ac yn dod i rym ar 1 Medi 2015. O'r dyddiad hwn bydd y Meysydd Dysgu presennol ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn cael eu disodli.

**Datganiadau deilliannau: Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol**

Dylid defnyddio'r datganiadau deilliannau diwygiedig ar gyfer asesu diwedd cyfnod, ar ddiwedd Blwyddyn 2. Mae'r datganiadau deilliannau diwygiedig yn dod yn ofyniad cyfreithiol trwy gyfrwng Gorchymyn a wneir gan Lywodraeth Cymru ac yn dod i rym ar 1 Medi 2017. O ganlyniad dylid dilyn yr amserlen gweithredu canlynol ar gyfer asesu diwedd cyfnod ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; a Datblygiad Corfforol:

- 2015/16 – deilliannau gwreiddiol (2008) (gweler Atodiadau A a B)
- 2016/17 – deilliannau gwreiddiol (2008) (gweler Atodiadau A a B)
- 2017/18 – deilliannau diwygiedig (2015) (gweler tudalennau 53–58).

**Datganiadau deilliannau: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a Datblygiad Corfforol**

Mae tri datganiad deilliant (Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen, Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen, Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen) wedi cael eu hychwanegu ar gyfer asesu o fewn y Cyfnod Sylfaen. Gellir eu defnyddio ar gyfer asesu diwedd cyfnod, ar ddiwedd Blwyddyn 2, o fis Medi 2015.

**Llywodraeth Cymru**
**Awst 2015**

# Cefndir

Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, a gafodd ei gyflwyno ym mis Medi 2010, yw'r Cyfnod Sylfaen. Mae'n annog plant i fod yn greadigol ac i ddefnyddio eu dychymyg ac mae'n sicrhau bod dysgu yn fwy difyr ac effeithiol.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael ag addysg a dysgu gydol oes yn cael ei osod yng nghyd-destun ein gweledigaeth ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc. Gellir gweld manylion cynllun deng mlynedd blynyddoedd cynnar a gofal plant Llywodraeth Cymru yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013).

Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n amddiffyn hawliau dynol plant hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi crynhoi'r CCUHP o dan saith prif bennawd drwy bennu saith nod craidd (www.llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/sevencoreaims/?lang=cy). Fframwaith cenedlaethol yw hwn ar gyfer datblygu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc ac mae'n sail i benderfyniadau ynghylch y blaenoriaethau a'r amcanion yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi holl weithgareddau'r adran sy'n gyfrifol am addysg a gwasanaethau cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru.

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posib, gan gynnwys rhyddid o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsbloetiaeth
- yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- yn cael rhywun i wrando arnynt, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- ddim dan anfantais oherwydd unrhyw fath o dlodi.

### Y Cyfnod Sylfaen a *Dyfodol Llwyddiannus*

Mae grŵp arbenigol wedi'i sefydlu i ddatblygu cynllun gweithredu strategol er mwyn datblygu arferion da ac effeithiol a fydd yn gyson ar draws bob lleoliad ac ysgol yn y tymor hir. Y nod yn y pen draw yw bod y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni ei botensial llawn. Caiff y cynllun gweithredu hwn ei gyhoeddi tua dechrau 2016. Fodd bynnag, ni fyddwn yn aros tan hynny i wneud gwelliannau i'r ffordd y caiff y Cyfnod Sylfaen ei ddarparu. Er enghraifft, mae'r ddogfen ddiwygiedig hon yn cyflwyno Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol ym mis Medi 2015, ynghyd â dull asesu newydd ar gyfer asesu'r llinell sylfaen, sef Proffil y Cyfnod Sylfaen.

Caiff gwaith y grŵp arbenigol ei integreiddio â datblygiadau pwysig eraill ym maes addysg Cymru, yn enwedig, bydd yn ymateb i adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015), sy'n gefnogol iawn i'r Cyfnod Sylfaen a'i ymagweddau ac a fydd yn sail i ddatblygiadau'r cwricwlwm yn y dyfodol. Mae'r newidiadau y mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn eu hargymell yn rhai mawr ac eang a bydd angen sawl blwyddyn iddynt gael eu datblygu a'u cyflawni'n llawn.

# Fframwaith y cwricwlwm

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cwmpasu anghenion datblygu plant. Wrth wraidd fframwaith y cwricwlwm statudol y mae datblygiad cyfannol plant a'u sgiliau ar draws y cwricwlwm, gan adeiladu ar eu profiadau dysgu a gwybodaeth blaenorol. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn hybu cyfle cyfartal a gwerthoedd, ac yn dathlu amrywiaeth. Mae partneriaethau cadarnhaol â'r cartref yn cael eu meithrin ac mae gwerthfawrogiad o rieni/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf plant yn cael ei gydnabod.

Bydd plant yn dysgu drwy weithgareddau sy'n cynnig profiadau uniongyrchol gyda'r busnes difrifol o 'chwarae' yn darparu'r cyfrwng. Drwy eu chwarae, bydd plant yn ymarfer a chadarnhau eu dysgu, yn chwarae gyda syniadau, arbrofi, cymryd risgiau, datrys problemau, ac yn gwneud penderfyniadau'n unigol ac mewn grwpiau bach a mawr. Mae profiadau uniongyrchol yn galluogi plant i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunain a'r byd y maent yn byw ynddo. Mae datblygiad hunanddelwedd plant a theimladau o hunan-barch wrth wraidd y cyfnod hwn.

Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi'i gynllunio fel fframwaith cynyddol sy'n rhychwantu pedair blynedd (tair i saith oed) er mwyn ateb anghenion amrywiol pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ar gam datblygu cynharach a'r rhai sy'n fwy galluog. Drwy gydol eu blynyddoedd ffurfiannol, bydd dysgu plant yn datblygu'n gyflymach nag ar unrhyw adeg arall. Fodd bynnag, nid yw cynnydd yn wastad, a bydd plant yn mynd drwy gyfnodau o ddatblygiad cyflym ac adegau pan fydd yn ymddangos eu bod yn cymryd cam yn ôl. Dylai cwricwlwm i blant ifanc fod yn briodol i'w cam dysgu yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y deilliannau cysylltiedig ag oedran sydd i'w cyflawni. Dylai plant symud ymlaen i gamau nesaf eu dysgu pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol ac ar eu cyflymder eu hunain.

Mae amgylcheddau dan do ac awyr agored sy'n llawn hwyl, yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel, yn hybu datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i ymchwilio a dysgu drwy brofiadau uniongyrchol. Dylai amgylchedd y Cyfnod Sylfaen hybu sgiliau darganfod ac annibyniaeth a rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu plant.

# Y plentyn sy'n datblygu

Mae'n rhaid i ymarferwyr ddeall sut mae plant yn datblygu a chynllunio cwricwlwm priodol sy'n ystyried anghenion datblygu plant a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i dyfu i fod yn ddysgwyr hyderus. Rhaid ystyried hefyd y rhwystrau i chwarae drwy brofiad, dysgu a chyfranogi a achosir gan anawsterau corfforol, synhwyraidd, cyfathrebu neu ddysgu. Rhaid cydnabod pwysigrwydd datblygiad emosiynol a lles hefyd. Dylid cydnabod bod plant mor ifanc â 36 mis oed ar gamau cynnar eu datblygiad. Rhaid cydnabod ac ystyried y profiadau y mae plant wedi'u cael cyn dechrau yn y lleoliad/ysgol.

Mae'n hanfodol bod plant yn cael mynediad i amrywiaeth o gyfryngau i fynegi eu hunain a digon o gyfleoedd i ddefnyddio eu dychymyg mewn ffordd bwrpasol. Bydd plant yn caffael ac yn datblygu sgiliau ar gyflymder gwahanol a rhaid rhoi cyfle iddynt ddatblygu ar eu cyflymder unigryw, unigol eu hunain. Wrth i blant ddysgu sgiliau newydd dylid rhoi cyfleoedd iddynt ymarfer y sgiliau hynny mewn gwahanol sefyllfaoedd, a myfyrio ar eu gwaith a'i werthuso. Ym mhob agwedd ar eu datblygiad, dylid parchu, gwerthfawrogi ac annog gwaith plant am ei wreiddioldeb a'i onestrwydd.

# Ymagweddau at ddysgu ac addysgu

Dylai'r ddarpariaeth addysgol i blant ifanc fod yn gyfannol, gyda'r plentyn wrth wraidd unrhyw gwricwlwm a gynllunnir. Mae'n golygu bod ymarferwyr yn deall, ysbrydoli a herio potensial plant ar gyfer dysgu. Mae'n bwysig iawn bod ymarferwyr yn cymryd rhan mewn chwarae plant drwy brofiad yn enwedig pan fydd rhyngweithio yn cynnwys cwestiynu agored, meddwl cyffredin a chynaliadwy.

Rhaid cael cydbwysedd rhwng dysgu strwythuredig drwy weithgareddau a gychwynnir gan y plentyn a'r rhai dan gyfarwyddyd yr ymarferwyr. Mae cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n dda yn rhoi cyfleoedd i blant ymwneud yn greadigol â'u dysgu eu hunain ac mae'n rhaid iddo adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod eisoes ac yn gallu ei wneud, eu diddordebau a'r hyn y maent yn ei ddeall. Mae dysgu gweithredol yn gwella ac yn estyn datblygiad y plentyn.

I blant, gall chwarae fod yn fusnes difrifol (ac mae hynny'n wir yn aml). Mae'n gofyn am sylw dwys. Mae'r plentyn yn dysgu drwy ddyfalbarhau, rhoi sylw i fanylion, a chanolbwyntio – nodweddion sydd wedi'u cysylltu fel arfer â gwaith. Mae chwarae yn hanfodol i'r ffordd y bydd plant yn dod yn ymwybodol o'u hunain a hefyd y ffordd y byddant yn dysgu sut i ymddwyn yn gymdeithasol; mae hefyd yn hanfodol i ddatblygiad deallusol.

Dylai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen gydnabod dysgu a chyrhaeddiad blaenorol, cynnig dewisiadau, herio plant mewn modd gofalus a sensitif, eu hannog a symud eu dysgu yn ei flaen. Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen fod yn hyblyg er mwyn galluogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant i gael cyfleoedd i gynllunio a darparu cwricwlwm priodol ar gyfer plant sydd ar gam cynnar eu datblygiad ac i'r rhai sy'n fwy galluog. Mae ar blant angen cwricwlwm eang, cytbwys sydd wedi'i wahaniaethu. Drwy gynllunio priodol a phrofiadau strwythuredig yn y Meysydd Dysgu, dylai plant dyfu a datblygu, a dylid gweld cynnydd yn eu datblygiad.

# Cynnwys pob plentyn

## Cyfrifoldebau lleoliadau/ysgolion

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru, *Gweithredu'r Hawliau* (2004), rhaid darparu i bob plentyn a pherson ifanc addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadaedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar leoliadau/ysgolion yng Nghymru tuag at blant heddiw a phlant y dyfodol, sef cael gwared ar wahaniaethau ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd y lleoliad/ysgol.

Dylai lleoliadau/ysgolion feithrin ym mhob plentyn ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai lleoliadau/ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi plant i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai lleoliadau/ysgolion hefyd ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob plentyn ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad y plant a'u paratoi ar gyfer bywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i leoliadau/ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i bob plentyn fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i leoliadau/ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod profiadau dysgu perthnasol ar gael i blant fanteisio arnynt.

Ar gyfer plant ag anableddau yn arbennig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai lleoliadau/ysgolion geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn pob plentyn, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer plant nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai lleoliadau/ysgolion gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai lleoliadau/ysgolion ddarparu deunydd i blant sy'n addas i'w gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylai lleoliadau/ysgolion hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y plant wrth ddysgu.

## Hawl i bob plentyn

Dylai lleoliadau/ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob plentyn yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu lleoliad/ysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r lleoliad/ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai lleoliadau/ysgolion addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu plant sy'n dal i ddatblygu. Dylent hefyd sicrhau bod plant yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai plant brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Dylai lleoliadau/ysgolion ddefnyddio deunyddiau mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer oed, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol er mwyn ennyn diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer plant mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai lleoliadau/ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn lled a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai lleoliadau/ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu plant
- diwallu anghenion penodol eu plant a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai plant o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

# Sgiliau ar draws y cwricwlwm

## Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) statudol wedi cael ei ddatblygu i gefnogi ymarferwyr i ymwreiddio llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r plant yn ei **gaffael** a'u gallu i **gymhwyso'r** sgiliau a'r cysyniadau y maent wedi'u dysgu i gwblhau tasgau realistig, sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygu.

Mae'r FfLlRh yn disgrifio'n fanwl y sgiliau yr ydym yn disgwyl i blant a phobl ifanc eu caffael a'u meistroli o 3 i 14 oed. Mae dwy gydran i'r FfLlRh – llythrennedd a rhifedd. Maent wedi'u rhannu yn ôl y llinynnau canlynol.

O ran **llythrennedd** rydym yn disgwyl i blant ddod yn fedrus mewn:

- llafaredd ar draws y cwricwlwm
- darllen ar draws y cwricwlwm
- ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

O ran **rhifedd** rydym yn disgwyl i blant ddod yn fedrus mewn:

- datblygu ymresymu rhifyddol
- defnyddio sgiliau rhif
- defnyddio sgiliau mesur
- defnyddio sgiliau data.

Rydym yn cydnabod y gall datblygu sgiliau, ymhlith dysgwyr ifanc yn arbennig, fod yn rhywbeth mwy anwadal, ond mae'n bwysig i bob dysgwr fod yna gynllunio'n effeithiol ar gyfer sgiliau ar draws y cwricwlwm a fframwaith ar gyfer datblygiad parhaus.

## Sgiliau anstatudol

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2008) anstatudol ar waith er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant wrth ddatblygu sgiliau meddwl a TGCh i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Dylai plant gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio eu sgiliau drwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Bydd dilyniant mewn tasgau yn symud o'r diriaethol i'r haniaethol, syml i'r cymhleth, personol i'r 'darlun mawr', a'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd. Bydd y plant yn symud ymlaen o fod angen cymorth i weithio'n fwy annibynnol. Byddant yn symud o wrando a rhyngweithio ag eraill mewn ffordd gyffredinol i sefyllfa lle byddant yn dewis gweithio ag eraill fel strategaeth fwriadol ar gyfer dod i ddeall. Drwy hyn byddant yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol a chyd-ddibynnol.

## Datblygu meddwl

Bydd y plant yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm drwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**, sydd yn eu helpu i feithrin dealltwriaeth well ac yn eu galluogi i ymchwilio a gwneud synnwyr o'u byd eu hunain.

Mae'r prosesau hyn yn galluogi plant i feddwl mewn modd creadigol a beirniadol, cynllunio eu gwaith, cyflawni tasgau, dadansoddi a gwerthuso eu casgliadau, a myfyrio ar eu dysgu gan wneud cysylltiadau o fewn a'r tu allan i'r lleoliad/ysgol. Ni ddylid ystyried y prosesau o ddatblygu meddwl, sef cynllunio, datblygu a myfyrio, fel dull penodol o ddysgu ac addysgu. Nid oes gan bob proses le penodol mewn tasg. Dylai'r tair proses fod yn gydgyfnewidiol.

## Datblygu TGCh

Dylai TGCh fod yn gyfannol ac yn rhan annatod o'r cwricwlwm cyfan. Dylai sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth TGCh plant gael eu datblygu drwy ystod o brofiadau sy'n cynnwys **darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau** a **chreu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**.

Dylid arsylwi ar allu TGCh plant gyda dealltwriaeth o ddatblygiad plant a'r camau y bydd y plant yn mynd drwyddynt. Dylid rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau gan ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

# Y Cwricwlwm Cymreig

Mae’r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig drwy ddatblygu dealltwriaeth plant o hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru ar draws yr holl Feysydd Dysgu mewn modd integredig. Dylai’r plant werthfawrogi’r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, synau a blasau sy’n rhan annatod o Gymru heddiw, a meithrin ymdeimlad o berthyn i Gymru a dylent ddeall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â’r iaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a hybu’r iaith Gymraeg. Bydd pob lleoliad/ysgol yn gweithredu rhaglen addysg Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen i blant tair i saith oed.

Dylai’r lleoliadau a’r ysgolion hynny a ddiffinnir fel darparwyr cyfrwng Cymraeg ddilyn rhaglen addysg y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Ni fydd angen iddynt gyflwyno’r Maes Dysgu Datblygu’r Gymraeg.

Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae’r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylid datblygu sgiliau Cymraeg plant yn raddol drwy’r Cyfnod Sylfaen drwy weithredu’r Maes Dysgu Datblygu’r Gymraeg.

# Addysg grefyddol

Mae’r *Fframwaith cenedlaethol enghreifftiol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2008) yn darparu gwybodaeth a chanllawiau ar weithredu addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r fframwaith yn cadarnhau bod rhaid darparu addysg grefyddol i bob plentyn cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, gan gynnwys y rhai mewn dosbarthiadau Derbyn ond heb gynnwys plant mewn ysgolion meithrin a dosbarthiadau meithrin fel a nodir yng Nghylchlythyr 10/94 a’r ddeddfwriaeth ddilynol. Mae’r fframwaith hefyd yn darparu canllawiau ar gyfer gweithredu hawl anstatudol i blant mewn lleoliadau meithrin a’r sail ar gyfer cynllunio addysg grefyddol statudol i blant yng ngweddill y Cyfnod Sylfaen.

Drwy addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen bydd y plant yn cael cyfleoedd i ymchwilio i’w profiadau, eu cwestiynau a’u blaenoriaethau eu hunain, a rhai pobl eraill, a myfyrio ar werth bywyd a chael eu hannog i ymddwyn yn gyfrifol tuag at bethau byw mewn ffordd agored a heriol drwy ymchwilio i ystod o gredoau a safbwyntiau. Er bod dull agored sy’n annog dysgwyr i gymryd rhan a chwestiynu yn cael ei annog ar gyfer addysg grefyddol, mae rhieni/gofalwyr yn parhau i gael yr hawl i dynnu plant yn ôl o addysg grefyddol.

Mae’r sgiliau a amlygir yn y fframwaith yn cyfateb i raddau helaeth i’r rhai yn y Meysydd Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd, Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a Datblygiad Creadigol ac yn dilyn y patrwm dysgu drwy brofiad y dylai plant gael mynediad iddo yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r ystod fel yr enghreifftir yn adran ‘Pobl, Credoau a Chwestiynau’ y fframwaith yn gweddu i’r ymagwedd gyfannol tuag at ddatblygu’r cwricwlwm sydd wedi’i hymwreiddio yn y Cyfnod Sylfaen.

Ni fydd cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn effeithio ar y ddyletswydd statudol sydd ar ysgolion a gynhelir i ddarparu addysg grefyddol. Mae canllawiau ar y gofyniad hwn ar gael yng Nghylchlythyr 10/94. Mae’r cylchlythyr yn cadarnhau bod yn rhaid darparu addysg grefyddol i bob plentyn sydd wedi ei gofrestru mewn ysgol a gynhelir, gan gynnwys plant y dosbarth Derbyn, ond nid yw hyn yn cynnwys plant mewn ysgolion a dosbarthiadau meithrin. Mae hyn yn amodol ar hawliau rhieni/gofalwyr i dynnu eu plentyn/plant yn ôl o addysg grefyddol. Felly bydd cynnwys addysg grefyddol yn parhau i gael ei bennu yn y maes llafur cytûn lleol gyda chyngor wedi’i ddarparu gan y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG), neu o dan drefniadau a wnaed gan ysgol o natur grefyddol. Wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen, dylai lleoliadau/ysgolion ystyried yr angen i ddarparu’r fframwaith hwn a darpariaethau perthnasol y maes llafur cytûn lleol.

# Rhaglen addysg statudol: Meysydd Dysgu

Mae saith Maes Dysgu (chwech ar gyfer lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg) wedi cael eu pennu i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant tair i saith oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Mae'n rhaid i'r Meysydd Dysgu hyn gyd-fynd a chydweithio â'i gilydd i ddarparu dull trawsgwricwlaidd o greu cwricwlwm perthnasol ac ymarferol. Ni ddylid eu trin ar wahân. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu mewn modd addas ac integredig.

Y saith Maes Dysgu yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (wedi'i ddiwygio i gynnwys cydran llythrennedd y FfLlRh)
- Datblygiad Mathemategol (wedi'i ddiwygio i gynnwys cydran rhifedd y FfLlRh)
- Datblygu'r Gymraeg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol.

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen, a dylid datblygu'r Maes Dysgu hwn ar draws y cwricwlwm.

# Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen, a chaiff sgiliau plant eu datblygu ar draws yr holl Feysydd Dysgu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu drwy brofiadau, a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored. Mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn eu teulu a'r tu allan iddo. Caiff plant eu hannog i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Maent yn datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod gan bobl eraill anghenion, galluoedd, credoau a safbwyntiau gwahanol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, a hynny er mwyn dathlu gwahanol ddiwylliannau a helpu plant i adnabod eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill a meithrin ymwybyddiaeth gadarnhaol ohonynt. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn galluogi plant i dyfu'n fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol, a gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno. Dylent ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n elfennau pwysig o'r diwylliannau a geir yng Nghymru.

Caiff cymhelliant ac ymrwymiad i ddysgu eu hannog wrth i blant ddechrau deall eu potensial a'u galluoedd eu hunain. Caiff plant eu cynorthwyo i dyfu'n feddylwyr ac yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd ac yn dysgu am yr amrywiaeth o bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Caiff agweddau cadarnhaol eu meithrin tuag at fwynhau eu hamgylchedd a gofalu amdano. Wrth i'w hunaniaeth ddatblygu, mae plant yn dechrau mynegi eu teimladau a dangos empathi ag eraill. Maent yn profi heriau sy'n ymestyn eu gwaith dysgu.

# Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

## Ystod

**Drwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gymryd rhan mewn ystod o brofiadau, gan gynnwys:**

- gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys rôl arweinydd mewn grŵp bach, gwaith dysgu mewn pâr neu waith a wneir mewn tîm
- gwahanol adnoddau megis adnoddau printiedig a rhyngweithiol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddatrys problemau a thrafod canlyniadau
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu diogelwch eu hunain
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt wneud dewisiadau iach, a datblygu a deall eu cyrff eu hunain a sut y gallant eu cadw'n ddiogel ac yn iach.

## Sgiliau

### Datblygiad personol

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- dyfu'n annibynnol o safbwynt diwallu eu hanghenion o ran hylendid personol, a bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol
- mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau – rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill
- dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a phrofiadau newydd
- mentro a thyfu'n chwilotwyr hyderus yn eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored
- arbrofi â chyfleoedd dysgu newydd, gan gynnwys TGCh
- dod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol
- datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda, a deall sut y gallant wella eu dysgu a defnyddio adborth i wella eu gwaith
- canolbwyntio am gyfnodau cynyddol
- gwerthfawrogi eu gwaith dysgu, eu llwyddiant a'u cyraeddiadau eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill.

### Datblygiad cymdeithasol

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- fod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu
- cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain
- ystyried goblygiadau geiriau a gweithrediadau iddynt hwy eu hunain ac eraill
- datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r lleoliad/ysgol o ran ymddygiad, a deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus
- datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, a bod yn barod i gyfaddawdu
- ffurfio perthnasoedd a theimlo'n ddigon hyderus i gyd-chwarae a chydweithio ag eraill
- gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd, a dangos gofal a bod yn ystyriol
- deall yr hyn sy'n gwneud ffrind da
- datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel aelod o wahanol gymunedau, a deall eu Cymreictod eu hunain
- datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, safbwyntiau a chredoau amrywiol pobl eraill sy'n perthyn i'w diwylliant hwy a diwylliannau eraill
- trin pobl o bob cefndir diwylliannol mewn modd sy'n dangos parch a goddefgarwch
- datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rolau y mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau
- dechrau herio stereoteipiau.

# Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

| Ystod | Sgiliau |
|---|---|
| | **Datblygiad moesol ac ysbrydol**<br>**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**<br>• ymateb i syniadau a chwestiynau'n frwdfrydig, yn sensitif, yn greadigol ac yn reddfol<br>• siarad am yr hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac yn anghywir, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol<br>• siarad am y penderfyniadau a wneir mewn storïau neu sefyllfaoedd, neu benderfyniadau personol, a myfyrio yn eu cylch gan awgrymu ymatebion eraill<br>• ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wneir<br>• defnyddio storïau neu sefyllfaoedd i godi cwestiynau ynghylch pam y mae rhai pethau'n arbennig<br>• mynegi syniadau a theimladau yn greadigol, gan esbonio pam eu bod yn arwyddocaol<br>• siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion, a thrafod p'un a yw'r dewisiadau hynny'n golygu bod gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth<br>• gofyn cwestiynau ynghylch sut a pham y dylid trin pethau arbennig â pharch ac ymateb yn bersonol<br>• gofyn cwestiynau ynghylch beth sy'n bwysig mewn bywyd o safbwynt personol ac o safbwynt pobl eraill.<br><br>**Lles**<br>**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**<br>• werthfawrogi eu lles eu hunain a lles pobl eraill, a chyfrannu ato<br>• bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol<br>• deall y berthynas rhwng teimladau a gweithrediadau, a deall bod gan bobl eraill deimladau<br>• dangos gofal, parch a hoffter at blant eraill, oedolion a'u hamgylchedd<br>• datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas a deall yr hyn sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig iddynt pan fyddant yn chwarae ar eu pen eu hunain a gydag eraill<br>• deall ac adnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w hanadl, cyflymder curiad eu calon, eu hymddangosiad a'u teimladau<br>• datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod ymarfer corff a hylendid a'r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach<br>• gofyn am gymorth pan fo'i angen<br>• datblygu dealltwriaeth o'r peryglon a geir yn y cartref a'r amgylchedd sydd y tu allan iddo<br>• deall eu bod yn cael meddyginiaethau er mwyn teimlo'n well a deall bod rhai cyffuriau'n beryglus. |

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd plant yn cael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau iaith. Byddant yn datblygu eu sgiliau drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion/cyfathrebu a gwrando. Dylid eu hannog i gyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau, ailadrodd profiadau, a thrafod gweithgareddau chwarae unigol a gweithgareddau chwarae mewn grŵp. Bydd rhai plant yn cyfathrebu drwy ddulliau heblaw siarad. Bydd plant yn cyfeirio at eu bwriadau drwy ofyn cwestiynau, lleisio/mynegi barn, a gwneud dewisiadau drwy amrywiaeth o gyfryngau a thrwy adeiladu ar brofiadau blaenorol. Dylid eu hannog i wrando ar eraill ac ymateb iddynt, ynghyd ag ymateb i'r amrywiaeth o brofiadau bywyd y mae eu cyfoedion yn eu cyfrannu i'r amgylchedd dysgu, ac i ystod o ysgogiadau gan gynnwys deunyddiau clyweledol a meddalwedd rhyngweithiol TGCh. Dylent gael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen yn ogystal â deall y confensiynau sy'n gysylltiedig â phrint a llyfrau, a dylent gael ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau a mwynhau profiadau ysgrifennu. Dylid eu cynorthwyo i ddatblygu ymwybyddiaeth o Gymru fel gwlad sydd â dwy iaith, a dangos agweddau cadarnhaol at y sawl sy'n siarad ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg. Dylai'r sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

# Llinyn: Llafaredd

## Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

### Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:

- gwricwlwm priodol o ran datblygiad lle mae'r saith Maes Dysgu (chwech mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd
- darpariaeth barhaus wedi'i chyfoethogi a gweithgareddau â ffocws mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant
- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grŵp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm
- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh
- cyfleoedd dysgu gweithredol sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol ac sy'n eu cefnogi i dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod.

## Ystod o brofiadau

### Dylai plant gael cyfleoedd i:

- gael profiad helaeth o iaith o'u cwmpas sy'n eu trwytho yn yr iaith lafar a'r ysgrifenedig
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y ddarpariaeth barhaus, ac ar draws pob Maes Dysgu
- mynegi eu hunain yn greadigol gan ddefnyddio'u dychymyg
- profi pob math o gyfryngau ac ysgogiadau gan gynnwys technolegau datblygol
- darllen a rhannu amrywiaeth o destunau a storïau nad ydynt yn ffuglen a storïau traddodiadol o Gymru ac o bob rhan o'r byd gan gynnwys y rheini a ysgrifennwyd gan awduron enwog
- gwneud marciau neu ysgrifennu mewn ystod o genres
- cyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

Mae Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall blant ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd testun o'r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil benodol i Faes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cael ei ddynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig** ▲ **Sgil Maes Dysgu** ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLlRh, yn ffurfio'r Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cyfnod Sylfaen.

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Llafaredd

| Elfennau | Agweddau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: |
| Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Siarad | mynegi mwynhad neu ddiddordeb | mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau | mynegi barn ar bynciau cyfarwydd | mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau |
| | | trafod llun, modelau a gweithrediadau mewn termau syml | **siarad am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud gan ychwanegu rhywfaint o ddisgrifiad ❖** | siarad am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan esbonio'r broses | **siarad yn fanwl am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan egluro'r broses ❖** |
| | | ail-adrodd digwyddiad neu brofiad mewn termau syml | siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth | cynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol i ymhelaethu ar eu syniadau neu eu hadroddiadau | ymestyn eu syniadau neu eu hadroddiadau gan drefnu'r hyn y maent yn ei ddweud a chynnwys manylion perthnasol |
| | | **defnyddio brawddegau sy'n cynnwys pump gair neu fwy gyda pheth anaeddfedrwydd gramadegol, *e.e. hepgor rhai geiriau cyswllt* ❖** | defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml | **adeiladu ar brofiad blaenorol gan egluro eu hunain drwy:<br>– drefnu yr hyn y maent yn ei ddweud<br>– dewis geiriau'n fwriadol ❖** | **adeiladu ar brofiad blaenorol, siarad yn hyderus gan egluro eu hunain drwy:<br>– drefnu yr hyn y maent yn ei ddweud<br>– dewis geiriau'n fwriadol<br>– gynnwys manylder perthnasol ❖** |
| | | **defnyddio geirfa sydd newydd ei dysgu oddi mewn a thrwy weithgareddau chwarae ❖** | **defnyddio geirfa gynyddol ac addas o fewn a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ❖** | **defnyddio ystod gynyddol o eirfa addas wrth chwarae ac mewn gweithgareddau strwythuredig ❖** | **defnyddio ystod gynyddol o eirfa addas wrth chwarae ac mewn gweithgareddau strwythuredig a sefyllfaoedd ffurfiol, gan amrywio geiriau i ychwanegu diddordeb ❖** |
| | | siarad yn ddigon clir i gael eu deall gan oedolion a chyfoedion | siarad yn glywadwy | siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i wrandawyr sydd y tu hwnt i'w grŵp cyfeillion | siarad yn eglur ag ystod o gynulleidfaoedd |
| | | dynwared bywyd go iawn a phrofiadau dychmygol o fewn gweithgaredd chwarae rôl | cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol | mabwysiadu rôl gan ddefnyddio iaith briodol | mabwysiadu rôl benodol, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig |
| | | **ymateb, mewn ffordd syml, i ddrama y maent wedi ei gwylio ac ysgogiadau creadigol eraill ❖** | **ymateb, gyda rhywfaint o fanylder, i ddrama y maent wedi ei gwylio ac ysgogiadau creadigol eraill ❖** | **ymateb, gyda mwy o fanylder, i ddrama ac ysgogiadau creadigol eraill ❖** | **ymateb i ddrama a mynegi barn yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o ysgogiadau ❖** |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Llafaredd

| Elfennau | Agweddau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Siarad | **deall a defnyddio cwestiynau syml, e.e. *'Pam?', 'Sut?' a 'Ga i?'*, i sefydlu pam y mae pethau'n digwydd ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖** | **defnyddio cwestiynau amrywiol, e.e. *'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?'*, i sefydlu pam y mae pethau'n digwydd ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖** | **defnyddio cwestiynau amrywiol, e.e. *'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?'*, at ddibenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖** | **paratoi a gofyn cwestiynau amrywiol, e.e. *'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?'*, at ddibenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖** |
| | | **cymryd rhan wrth chwarae â synau a geiriau ❖** | **dangos ymwybyddiaeth o gyflythreniad ac odl ❖** | **defnyddio cyflythreniad ac odl ❖** | **defnyddio cyflythreniad ac odl mewn ystod o gyd-destunau ❖** |
| | | **sylwi ar rhythm ac odl mewn geiriau ar lafar ac ymuno mewn gweithgareddau rhythmig ❖** | **sylwi ar rhythm mewn geiriau ar lafar a pharhau gyda rhes o odlau ❖** | **defnyddio rhythm ac odl i greu llafarganeuon, odlau a cherddi syml ❖** | **defnyddio rhythm ac odl i greu llafarganeuon, odlau a cherddi mwy cymhleth ❖** |
| | | **siarad wrth chwarae yn symbolaidd ❖** | **siarad i greu stori wrth chwarae yn symbolaidd/dychmygol ❖** | | |
| | | dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau trwy hwiangerddi a chaneuon | dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. *dau gi, y gath* | dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. *y ferch* | defnyddio ambell dreiglad y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. *y bêl, fy mag, i'r dref* |
| | Gwrando | gwrando ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol | dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, e.e. *wrth dynnu llun* | gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, e.e. *dilyn cyfarwyddiadau'n gywir* | gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen |
| | | **gwrando ar a dilyn cyfarwyddyd mewn dau gam ❖** | **gwrando ar a dilyn cyfarwyddyd mewn tri cham ❖** | **gwrando ar a dilyn cyfarwyddyd mwy cymhleth ❖** | |
| | | **clywed a gwahaniaethu rhwng synau cyffredinol, synau llafar a synau yr amgylchedd ❖** | **neilltuo a nodi synau cychwynnol mewn gair llafar ❖** | **neilltuo a nodi llafariaid canol a synau terfynol mewn gair llafar ❖** | |
| | | | | **cyfuno a rhannu geiriau ar lafar ❖** | **cyfuno a rhannu geiriau amlsillafog ar lafar ❖** |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh   Sgil estynedig ▲   Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Llafaredd

| Elfennau | Agweddau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | Gwrando | **dilyn geiriau gweithredol, e.e. *drwy gemau a chaneuon*** ❖ | **dilyn geiriau/gorchmynion gweithredol** ❖ | **dilyn gorchmynion gweithredol mwy cymhleth** ❖ | **dilyn a chreu eu gorchmynion gweithredol eu hunain** ❖ |
| | | gwrando ac ymuno â chaneuon, rhigymau a storïau | ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi, rhigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth | ymuno wrth adrodd/canu amrywiaeth o rigymau, caneuon, **cerddi a storïau**, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof ▲ | **ymuno â, ailadrodd neu gofio ystod o ysgogiadau yn cynnwys rhigymau, caneuon, storïau, a cherddi, gan gynnwys cerddi gwirion** ❖ |
| | | ailadrodd stori neu wybodaeth y maent wedi'i glywed mewn termau syml | **ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi'u clywed mewn termau syml** ❖ | ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed **gan ddefnyddio cysyllteiriau syml** ▲ | ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir |
| | | **dangos dealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol fel mewn, ar, mawr, bach, gwlyb, sych, poeth ac oer** ❖ | **dangos dealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol gan gynnwys dros, o dan, tu ôl** ❖ | **dangos dealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol gan gynnwys trwy, dros** ❖ | **dangos dealltwriaeth o arddodiaid o fewn eu chwarae a'u gweithgareddau strwythuredig** ❖ |
| | | **ateb cwestiynau syml 'Pwy?', 'Beth?' a chwestiynau penagored sy'n gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, storïau neu ddigwyddiadau** ❖ | **ateb cwestiynau 'Pwy?', 'Beth?', 'Ble?' a chwestiynau penagored sy'n gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, storïau neu ddigwyddiadau** ❖ | **ateb cwestiynau 'Pwy?', 'Beth?', 'Pryd?', 'Ble?', 'Sut?' a chwestiynau penagored sy'n gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, storïau neu ddigwyddiadau** ❖ | **ateb cwestiynau mwy cymhleth sy'n gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, storïau neu ddigwyddiadau** ❖ |
| | | gofyn cwestiwn priodol am rywbeth sydd wedi'i ddweud | gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd | dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth | dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol |
| | | **dynwared a defnyddio atebion i gwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir** ❖ | **dechrau ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, e.e. *Ydy? Ydy/Nac ydy*** ❖ | ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir fel arfer, e.e. *Oes? Oes/Nac oes* | ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, e.e. *Ydy? Ydy/Nac ydy* |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh    Sgil estynedig ▲    Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Llafaredd

| Elfennau | Agweddau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Cydweithio a thrafod** | cymryd rhan mewn trafodaeth gyda phlant eraill a/neu oedolion | cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, *e.e. gyda ffrindiau* | cyfrannu i sgyrsiau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi | cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad |
| | | cymryd rhan gydag eraill mewn gweithgareddau. | cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio. | cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud | rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg |
| | | | | **defnyddio rhai cliwiau di-eiriau yn fwriadol fel ystumio'r wyneb neu'r dwylo.** ❖ | **dehongli, ymateb a defnyddio cliwiau di-eiriau fel ystumio'r wyneb neu'r dwylo.** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh    Sgil estynedig ▲    Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Darllen

## Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

### Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:

- gwricwlwm priodol o ran datblygiad lle mae'r saith Maes Dysgu (chwech mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd
- darpariaeth barhaus wedi'i chyfoethogi a gweithgareddau â ffocws mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant
- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grŵp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm
- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh
- cyfleoedd dysgu gweithredol sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol ac sy'n eu cefnogi i dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod.

## Ystod o brofiadau

### Dylai plant gael cyfleoedd i:

- gael profiad helaeth o iaith o'u cwmpas sy'n eu trwytho yn yr iaith lafar a'r ysgrifenedig
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y ddarpariaeth barhaus, ac ar draws pob Maes Dysgu
- mynegi eu hunain yn greadigol gan ddefnyddio'u dychymyg
- profi pob math o gyfryngau ac ysgogiadau gan gynnwys technolegau datblygol
- darllen a rhannu amrywiaeth o destunau a storïau nad ydynt yn ffuglen a storïau traddodiadol o Gymru ac o bob rhan o'r byd gan gynnwys y rheini a ysgrifennwyd gan awduron enwog
- gwneud marciau neu ysgrifennu mewn ystod o genres
- cyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

Mae Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall blant ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

### Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd testun o'r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil benodol i Faes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cael ei ddynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig** ▲ **Sgil Maes Dysgu** ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLlRh, yn ffurfio'r Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cyfnod Sylfaen.

### D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Darllen

| Elfennau | Agweddau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth | Strategaethau darllen | dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys llyfrau | dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau | dewis deunyddiau darllen ac esbonio ystyr testun a pham maent yn ei hoffi | dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau dros eu dewisiadau |
| | | **dal llyfrau y ffordd iawn i fyny a throi'r tudalennau ❖** | **deall bod testun yn dweud rhywbeth ac y dylid darllen o'r chwith i'r dde, o'r top i'r gwaelod ❖** | **siarad am nodweddion llyfrau fel y dudalen gynnwys a'r teitlau ❖** | **defnyddio'r dudalen gynnwys a'r eirfa mewn pob math o destunau ❖** |
| | | **adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau mewn lluniau, siapiau, patrymau a gweadau ❖** | **gwahaniaethu rhwng llythrennau mewn ystod o gyd-destunau ❖** | | |
| | | **dwyn i gof a siarad am ddarluniau a gwrthrychau gweledol ❖** | | | |
| | | **cysylltu cardiau lluniau neu wrthrychau â synau cyntaf ar lafar ❖** | **adnabod nifer cynyddol o synau llafar a'u cysylltu â llythrennau ❖** | **adnabod a chysylltu synau llafar â chyfuniadau o lythrennau ac enwau llythrennau ❖** | |
| | | **adnabod a gwahaniaethu rhwng print a lluniau ❖** | adnabod bod geiriau'n cael eu ffurfio o ffonemau (synau) a bod ffonemau'n cael eu cynrychioli gan graffemau (llythrennau ysgrifenedig):<br>– cyfuno cyfuniadau o lythrennau gwybyddus ar lafar<br>– segmentu cyfuniadau o lythrennau gwybyddus ar lafar ▲ | **adnabod a defnyddio nifer cynyddol o ffonemau a'u graffemau cyfatebol wrth gyfuno a segmentu geiriau hyd at ddwy sillaf ❖** | **defnyddio pob ffonem a'u graffem cyfatebol yn hyderus wrth gyfuno a segmentu geiriau amlsillafog ❖** |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh  Sgil estynedig ▲  Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Darllen

| | | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | | **defnyddio'r strategaethau darllen canlynol gyda chymorth:**<br>**– strategaethau ffonig i ddatgodio geiriau syml**<br>**– adnabod geiriau aml eu defnydd**<br>**– cliwiau'r cyd-destun, *e.e. lluniau, sŵn gychwynnol***<br>**– ailadrodd mewn testun** ❖ | defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol:<br>– strategaethau ffonig i ddatgodio geiriau<br>– adnabod geiriau aml eu defnydd<br>– cliwiau'r cyd-destun, *e.e gwybodaeth flaenorol*<br>– cliwiau graffig a chystrawennol<br>– hunan-gywiro gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen | defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol ar gyfer ystod ehangach o destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd:<br>– strategaethau ffonig<br>– adnabod geiriau aml eu defnydd<br>– cliwiau'r cyd-destun, *e.e. gwybodaeth flaenorol*<br>– cliwiau graffig a chystrawennol<br>– hunan-gywiro, gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen |
| | | | **defnyddio cyfatebiaeth un i un rhwng geiriau llafar ac ysgrifenedig** ❖ | **dilyn y testun gyda'r llygaid yn unig, gan ddefnyddio bys dim ond pan ddônt ar draws rhywbeth sy'n peri trafferth** ❖ | **dilyn tudalen o destun gyda'r llygaid yn ddidrafferth** ❖ |
| | | | darllen geiriau syml megis geiriau cytsain-llafariad-cytsain | **dadelfennu geiriau newydd sydd â chlystyrau o gytseiniaid a llafariaid drwy strategaethau, *e.e. gwahanu ffonemau, cychwyn geiriau ac odl*** ❖ | **dadelfennu testun sydd â chynnwys neu eirfa anghyfarwydd, gan lwyddo i ddeall pob peth** ❖ |
| | | adnabod geiriau cyfarwydd, *e.e. eu henwau eu hunain,* a phrint yn yr amgylchedd, *e.e. logos* | darllen penawdau a thestunau syml gan adnabod geiriau aml eu defnydd | darllen testunau addas yn gywir ac yn rhugl | darllen ystod ehangach o destunau addas yn fwyfwy cywir a rhugl |
| | | | dangos ymwybyddiaeth o'r atalnod llawn wrth ddarllen | darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnod llawn a'r gofynnod | darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnodi, gan gynnwys atalnod llawn, gofynnod, ebychnod a dyfynodau, gan amrywio goslef, llais a chyflymder |
| | | | | darllen ar goedd â mynegiant, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ebychnod a dyfynodau | |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh    Sgil estynedig ▲    Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Darllen

| Elfennau | Agweddau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | | dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng storïau a thestunau gwybodaeth | adnabod nodweddion testun syml megis teitlau a lluniau er mwyn esbonio'r testun | adnabod a defnyddio nodweddion testun, *e.e. teitlau, penawdau a lluniau*, i ganfod a deall gwybodaeth benodol |
| | | dehongli ystyr drwy luniau mewn llyfrau, gan ychwanegu manylion wrth esbonio | **defnyddio lluniau i'w helpu i ddadelfennu geiriau a deall y testun** ❖ | chwilio am gliwiau yn y testun er mwyn deall gwybodaeth | chwilio am eiriau allweddol i ganfod am beth mae'r testun yn sôn |
| | | | deall ystyr nodweddion gweledol y testun, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau* | deall ystyr nodweddion gweledol a'u cysylltiad â'r testun ysgrifenedig, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau* | defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr, *e.e. lluniau, siartiau a'r cynllun* |
| | | adnabod lluniau ar sgrin a dehongli eu hystyr | adnabod geiriau a lluniau ar sgrin a deall eu hystyr | adnabod geiriau a lluniau ar sgrin sy'n gysylltiedig â phwnc | adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth ar sgrin, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | cofio manylion stori neu destun drwy ateb cwestiynau penagored neu ddefnyddio lluniau i'w helpu | ail-ddweud storïau cyfarwydd mewn ffordd syml, **gan ddefnyddio lluniau i'w helpu** ▲ | ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir | dwyn i gof ac ail-ddweud naratifau a gwybodaeth o destunau gan gynnwys rhai manylion |
| | | | adnabod gwybodaeth o destun gan ddefnyddio nodweddion gweledol a geirau | adnabod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chynnwys testun | codi gwybodaeth o destun yn gywir a'i didoli'n gategorïau neu o dan benawdau |
| | | | | dwyn i gof fanylion o destunau gwybodaeth | esbonio manylion perthnasol o destunau |
| | | dechrau gwneud cysylltiadau â'u profiadau eu hunain wrth wrando ar lyfrau/testunau neu wrth edrych arnynt | perthnasu gwybodaeth a syniadau o destun gyda phrofiad personol | defnyddio profiad personol er mwyn gallu deall testunau'n well | defnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i ategu dealltwriaeth o destunau |
| | | **siarad am 'beth allai ddigwydd nesaf'** ❖ | **rhagfynegi diwedd i stori** ❖ | **defnyddio'r dechneg o ragfynegi stori gan ychwanegu mwy o fanylion** ❖ | **ymhelaethu ac adolygu rhagfynegiadau mewn ffuglen a thestun nad ydyw'n ffuglen** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Darllen

| Elfennau | Agweddau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Ymateb a dadansoddi** | dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys | dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill ac ymateb i'w cynnwys | mynegi barn am wybodaeth yn y testun | mynegi barn am wybodaeth gan ddefnyddio manylion o'r testun, **gan ystyried y cynnwys, y syniadau, sut caiff ei gyflwyno a'i drefnu, a'r iaith a ddefnyddir ▲** |
| | | dilyn llyfrau lluniau a thestunau a ddarllenir iddynt ac ymateb yn briodol. | dilyn testunau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymateb yn briodol. | archwilio iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau | dangos dealltwriaeth a mynegi barn am iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau |
| | | | | gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth arall am y pwnc. | gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am y pwnc. |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Ysgrifennu

## Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

### Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:

- gwricwlwm priodol o ran datblygiad lle mae'r saith Maes Dysgu (chwech mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd
- darpariaeth barhaus wedi'i chyfoethogi a gweithgareddau â ffocws mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant
- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grŵp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm
- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh
- cyfleoedd dysgu gweithredol sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol ac sy'n eu cefnogi i dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod.

## Ystod o brofiadau

### Dylai plant gael cyfleoedd i:

- gael profiad helaeth o iaith o'u cwmpas sy'n eu trwytho yn yr iaith lafar a'r ysgrifenedig
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y ddarpariaeth barhaus, ac ar draws pob Maes Dysgu
- mynegi eu hunain yn greadigol gan ddefnyddio'u dychymyg
- profi pob math o gyfryngau ac ysgogiadau gan gynnwys technolegau datblygol
- darllen a rhannu amrywiaeth o destunau a storïau nad ydynt yn ffuglen a storïau traddodiadol o Gymru ac o bob rhan o'r byd gan gynnwys y rheini a ysgrifennwyd gan awduron enwog
- gwneud marciau neu ysgrifennu mewn ystod o genres
- cyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

Mae Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall blant ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd testun o'r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil benodol i Faes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cael ei ddynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig** ▲ **Sgil Maes Dysgu** ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLlRh, yn ffurfio'r Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cyfnod Sylfaen.

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Ysgrifennu

| Elfennau | Agweddau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: |
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | Ystyr, dibenion, darllenwyr | arbrofi ag ystod o ddefnyddiau ac offer gwneud marciau mewn amrywiaeth o gyd-destunau | **gwneud marciau neu ysgrifennu mewn ymateb i ysgogiadau amrywiol ar bynciau sydd o ddiddordeb neu o bwys iddynt, gan gynnwys storïau a phrofiadau personol** ❖ | **ysgrifennu mewn ymateb i ysgogiadau amrywiol ar bynciau sydd o ddiddordeb neu o bwys iddynt, gan gynnwys storïau, cerddi, gweithgareddau dosbarth a phrofiadau personol** ❖ | **ehangu ar eu hymateb i ysgogiadau amrywiol ar bynciau sydd o ddiddordeb neu o bwys iddynt, gan gynnwys storïau, cerddi, gweithgareddau dosbarth a phrofiadau personol** ❖ |
| | | priodoli ystyr i farciau, lluniau a gwaith celf, *e.e. nodiant oedolyn* | **creu darnau o ysgrifennu ymddangosol** ❖ | cyfathrebu'n bwrpasol wrth ysgrifennu, *e.e. efallai gyda chymorth lluniad* | ysgrifennu at ddibenion gwahanol |
| | | cyfathrebu drwy ddefnyddio symbolau a lluniau | cyfleu ystyr drwy luniau a thrwy wneud marciau | defnyddio lluniau, symbolau, dilyniant o lythrennau a geiriau cyfarwydd i gyfleu ystyr | ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllenydd arall – gall y testun gynnwys manylion a lluniau |
| | | **sylweddoli bod modd ysgrifennu gair llafar** ❖ | creu ac arddweud brawddeg **ar lafar** sy'n disgrifio digwyddiadau, profiadau a lluniau i gyfleu ystyr ▲ | sgwrsio am yr hyn y maent yn mynd i'w ysgrifennu | defnyddio sgwrs i gynllunio ysgrifennu |
| | | **dechrau sylweddoli mai llythrennau yw geiriau a bod ystyr i symbolau ysgrifenedig** ❖ | deall natur wyddorol ysgrifennu a bod gan symbolau ysgrifenedig ystyron | | |
| | | ysgrifennu llythrennau, rhifau a/neu symbolau ar hap | copïo ac ysgrifennu llythrennau, geiriau ac ymadroddion, ***e.e. o'r amgylchedd neu rai sydd wedi eu modelu gan yr ymarferydd*** ▲ | ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau syml gan ddarllen eu hymdrechion | ailddarllen eu gwaith ysgrifennu a'i wella i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr |
| | | defnyddio lluniau i gyfleu ystyr ar sgrin | defnyddio lluniau a symbolau i greu ysgrifennu ar sgrin | dewis llythrennau, geiriau a lluniau i greu ysgrifennu ar sgrin | arbrofi â ffurfiau a chynlluniau gwahanol ar sgrin, gan symud testun a lluniau o gwmpas yn hwylus |
| | | **dynwared y broses o ysgrifennu wrth chwarae rôl** ❖ | **defnyddio iaith ysgrifenedig wrth chwarae rôl ac mewn gweithgareddau dysgu gweithredol** ❖ | **defnyddio iaith ysgrifenedig at ddibenion neu swyddogaethau gwahanol o fewn gweithgareddau dysgu wrth chwarae a dysgu gweithredol** ❖ | **defnyddio iaith ysgrifenedig at ddibenion, swyddogaethau a chynulleidfaoedd gwahanol o fewn gweithgareddau dysgu wrth chwarae a gweithgareddau strwythuredig** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh  Sgil estynedig ▲  Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Ysgrifennu

| Elfennau | Agweddau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trefnu syniadau a gwybodaeth** | Strwythur a threfn | | dechrau gosod geiriau, arwyddion neu symbolau mewn dilyniant priodol | trefnu cynnwys mewn dilyniant cywir, e.e. *cyfarwyddiadau, ryseitiau* | dilyn strwythur yn eu gwaith ysgrifennu gyda chymorth, e.e. *adroddiadau, rhestri* |
| | | cyfrannu ar lafar gan ddilyn ffurf wedi'i modelu gan oedolyn | cyfrannu i ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes, e.e. *drwy ysgrifennu ar y cyd* | dilyn ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes | dilyn a datblygu ar ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes |
| | | | | **datblygu'r defnydd o linell stori o fewn ysgrifennu dychmygol** ❖ | **mireinio'r defnydd o linell stori o fewn ysgrifennu dychmygol** ❖ |
| | | | | **defnyddio cynllun syml i helpu a threfnu'r broses ysgrifennu, e.e. *byrddau darlunio, mapiau meddwl*** ❖ | trefnu darn o ysgrifennu gyda dechrau, canol a diwedd |
| | | **dangos dealltwriaeth, mewn termau syml, o wahanol ddibenion a swyddogaeth iaith ysgrifenedig, e.e. *wrth chwarae rôl*** ❖ | dangos dealltwriaeth o wahanol ffurfiau, e.e. *cardiau, rhestri, gwahoddiadau* | deall gwahanol fathau o ysgrifennu, e.e. *cofnod o ddigwyddiadau, disgrifiadau, naratif* | defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas a'r darllenydd |
| **Ysgrifennu'n gywir** | Iaith | | **defnyddio iaith sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu, e.e. *llythyren, gair, brawddeg*** ❖ | **defnyddio iaith sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu, e.e. *gofynnod, priflythyren, ebychnod*** ❖ | deall a defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, **e.e. *enw, berfenw, ansoddair*** ▲ |
| | | | | defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu | defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol |
| | Llawysgrifen<br>Cystrawen<br>Atalnodi<br>Sillafu | codi gwrthrychau bach gyda'u bys a'u bawd a dechrau dal offer ysgrifennu'n gywir | dal offer ysgrifennu mewn modd priodol | creu priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer yn eglur eu siâp ac yn wynebu'r ffordd gywir | ffurfio priflythrennau a llythrennau bach yn gywir ac yn gyson o ran eu maint |
| | | dangos dealltwriaeth bod print ysgrifenedig yn mynd o'r chwith i'r dde | ysgrifennu o'r chwith i'r dde | | |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh  Sgil estynedig ▲  Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Ysgrifennu

| Elfennau | Agweddau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** |
| **Ysgrifennu'n gywir** | Llawysgrifen<br>Cystrawen<br>Atalnodi<br>Sillafu | adnabod synau llythrennau drwy ymchwilio a chyffwrdd siapiau'r llythrennau o fewn gweithgareddau chwarae aml-synhwyraidd. | gwahaniaethu rhwng llythrennau | | |
| | | | gwahaniaethu rhwng priflythrennau a llythrennau bach, **a dangos ymwybyddiaeth o atalnodau llawn** ▲ | defnyddio priflythyren ac atalnod llawn yn weddol gyson | defnyddio priflythyren, atalnod llawn a gofynnod yn gywir, a defnyddio ebychnod weithiau |
| | | | | dechrau defnyddio cysyllteiriau er mwyn ymhelaethu ar bwynt | defnyddio cysyllteiriau i ysgrifennu brawddegau cyfansawdd |
| | | | | **defnyddio geiriau sy'n rhoi trefn ar destun, e.e. *i ddechrau, yna*** ❖ | defnyddio geiriau trefnu, e.e. *yn gyntaf, yna, wedyn, i gloi* |
| | | | | | defnyddio ffurfiau safonol berfau, e.e. *gweld/gwelais, mynd/aeth*, a chytundeb berf a goddrych, e.e. *roeddwn i/roedden ni* |
| | | | dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, e.e. *dau gi, y gath* | dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, e.e. *y ferch* | defnyddio ambell dreiglad y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. *y bêl, fy mag, i'r dref* |
| | | | defnyddio'r gytsain gychwynnol gywir drwy ddechrau defnyddio gwybodaeth ffonig | sillafu rhai geiriau mewn modd confensiynol gan gynnwys geiriau cytsain-llafariad-cytsain, a llythrennau dwbl, e.e. *rh, ff* | defnyddio strategaethau sillafu fel rhannu'n sillafau, gwreiddiau syml ac ôl-ddodiaid, e.e. *-ŵr, -ydd, -og* |
| | | | **dechrau defnyddio strategaethau sillafu megis sŵn–symbol a dadelfennu gair ar lafar gyda chymorth megis clapio synau mewn geiriau llafariad-cytsain a chytsain-llafariad-cytsain** ❖ | defnyddio strategaethau sillafu megis sŵn–symbol sy'n cyfuno a segmentu | **defnyddio'u gwybodaeth o sillafau i sillafu geiriau â sawl sillaf** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh  Sgil estynedig ▲  Sgil Maes Dysgu ❖

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Llinyn: Ysgrifennu

| Elfennau | Agweddau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: | Mae plant yn gallu: |
| Ysgrifennu'n gywir | Llawysgrifen<br>Cystrawen<br>Atalnodi<br>Sillafu | | **defnyddio cymhorthion sillafu fel matiau sillafu, cardiau fflach ac adnoddau eraill ❖** | **defnyddio cymhorthion sillafu fel geiriaduron lluniau, matiau sillafu ac adnoddau eraill ❖** | **defnyddio geiriadur ❖** |
| | | | defnyddio geiriau cyfarwydd ac aml eu defnydd wrth ysgrifennu. | sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir. | sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir |
| | | | | | sillafu rhai geiriau yn cynnwys ŷ/u/i, *e.e. tŷ, llun*, a llafariaid clwm, *e.e. coed*. |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh   Sgil estynedig ▲   Sgil Maes Dysgu ❖

# Maes Dysgu Datblygiad Mathemategol

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, bydd plant yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg drwy weithgareddau llafar, ymarferol a chwarae. Byddant yn mwynhau defnyddio a chymhwyso mathemateg mewn tasgau ymarferol, ym mhroblemau bywyd go iawn, ac o fewn mathemateg ei hun. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh fel dulliau archwilio rhif, cael data bywyd go iawn a chyflwyno eu casgliadau.

Bydd llawer o'r gwaith a wnânt yn waith llafar. Byddant yn datblygu eu defnydd a'u dealltwriaeth o iaith fathemategol mewn cyd-destun, drwy gyfathrebu/siarad am eu gwaith. Byddant yn gofyn ac ateb cwestiynau, ac yn archwilio cysyniadau eraill. Byddant yn defnyddio iaith fathemategol briodol i egluro eu ffordd o feddwl a'r dulliau y byddant yn eu defnyddio i gefnogi datblygiad eu rhesymu. Byddant yn datblygu ystod o ddulliau hyblyg ar gyfer gwneud gwaith pen gyda rhifau, er mwyn datrys problemau sy'n deillio o amrywiaeth o gyd-destunau, a byddant yn gwirio eu hatebion mewn gwahanol ffyrdd ac yn symud ymlaen i ddefnyddio dulliau gweithio a chofnodi mwy ffurfiol pan fyddant yn barod i wneud hynny o safbwynt eu datblygiad. Byddant yn archwilio, yn amcangyfrif ac yn datrys problemau go iawn, yn yr amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored. Byddant yn datblygu eu dealltwriaeth o fesurau, yn archwilio priodweddau siapiau ac yn datblygu cysyniadau cynnar ynghylch safle a symud drwy brofiadau ymarferol. Byddant yn didoli, yn paru, yn trefnu ac yn cymharu gwrthrychau a digwyddiadau, yn archwilio a chreu patrymau a pherthnasoedd syml, ac yn cyflwyno eu gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd.

# Datblygiad Mathemategol

# Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

## Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:

- gwricwlwm priodol o ran datblygiad lle mae'r saith Maes Dysgu (chwech mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd
- darpariaeth barhaus a gwell, a gweithgareddau â ffocws mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant
- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grŵp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm
- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh
- cyfleoedd dysgu ymarferol sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol ac sy'n eu cefnogi i dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod.

# Ystod o brofiadau

## Dylai plant gael cyfleoedd i:

- gael profiad o amgylchedd sy'n fathemategol gyfoethog ac sy'n caniatáu iddynt ymchwilio a datblygu cysyniadau ac iaith fathemategol
- datblygu sgiliau mathemategol ymarferol mewn pob math o gyd-destunau
- cyfathrebu mewn pob math o gyd-destunau mathemategol at ddibenion a chynulleidfaoedd amrywiol
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau mathemategol o fewn pob agwedd ar y ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth barhaus a thrwy bob Maes Dysgu
- cael profiad o amrywiol gyfryngau a chymhelliant gan gynnwys technolegau newydd
- deall a defnyddio amrywiol fesurau a gallu adnabod a defnyddio siapiau wrth chwarae ac o fewn gweithgareddau strwythuredig.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd testun o'r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil benodol i Faes Dysgu Datblygiad Mathemategol yn cael ei ddynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig** ▲ **Sgil Maes Dysgu** ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLlRh, yn ffurfio'r Maes Dysgu Datyblygiad Mathemategol y Cyfnod Sylfaen.

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.

# Datblygiad Mathemategol

<table>
<tr><th rowspan="2">Llinynnau</th><th rowspan="2">Elfennau</th><th>Meithrin</th><th>Dosbarth derbyn</th><th>Blwyddyn 1</th><th>Blwyddyn 2</th></tr>
<tr><th>Mae plant yn gallu:</th><th>Mae plant yn gallu:</th><th>Mae plant yn gallu:</th><th>Mae plant yn gallu:</th></tr>
<tr><td rowspan="12">Datblygu ymresymu rhifyddol</td><td rowspan="6">Adnabod prosesau a chysylltiadau</td><td colspan="4">trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a’r ystafell ddosbarth</td></tr>
<tr><td colspan="4">adnabod camau i gwblhau’r dasg neu gyrraedd datrysiad</td></tr>
<tr><td colspan="4">dewis mathemateg a thechnegau priodol i’w defnyddio</td></tr>
<tr><td colspan="4">dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="4">dewis cyfarpar ac adnoddau priodol</td></tr>
<tr><td colspan="4">defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Cynrychioli a chyfathrebu</td><td colspan="4">defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a’u dewisiadau eu hunain</td></tr>
<tr><td colspan="4">cyflwyno’u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd</td></tr>
<tr><td colspan="4">dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Adolygu</td><td colspan="4">defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol</td></tr>
<tr><td colspan="4">dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol</td></tr>
<tr><td colspan="4">dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol</td></tr>
</table>

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil Maes Dysgu ❖

# Datblygiad Mathemategol

| Llinynnau | Elfennau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio sgiliau rhif | Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau | **gwrando ar ac ymuno mewn rhigymau, caneuon, storïau a gemau sydd â thema fathemategol** ❖ | **adrodd amrywiaeth o rigymau a chaneuon rhifau** ❖ | | |
| | | **sylweddoli bod modd cyfrif unrhyw beth, nid dim ond gwrthrychau, *e.e. clapiau, camau*** ❖ | | | |
| | | cyfrif hyd at 5 o wrthrychau'n ddibynadwy | cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy | cyfrif hyd at 20 o wrthrychau'n ddibynadwy | cyfrif setiau o wrthrychau drwy eu rhoi mewn grwpiau o 2, 5 neu 10 |
| | | **adrodd rhifau o 0 i 10, ymlaen ac yn ôl, gan ddefnyddio caneuon a rhigymau** ❖ | **adrodd rhifau i 20, ymlaen ac yn ôl, ac o fannau cychwyn gwahanol** ❖ | **adrodd rhifau i 100, ymlaen ac yn ôl, ac o fannau cychwyn gwahanol** ❖ | **adrodd rhifau dros 100, ymlaen ac yn ôl, ac o fannau cychwyn gwahanol** ❖ |
| | | adnabod y rhifau 0 i 5 a chysylltu'r rhif â'r nifer perthnasol | darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 o leiaf | darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 20 o leiaf **gan eu ffurfio'n gywir a gofalu eu bod yn wynebu'r ffordd gywir** ▲ | darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 **o leiaf** ▲ |
| | | **gwneud marciau i gynrychioli rhifau wrth chwarae y gellir eu dehongli a'u hesbonio** ❖ | | | |
| | | cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 5 o leiaf | cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 10 o leiaf | cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 20 o leiaf | cymharu a rhoi rhifau 2 ddigid mewn trefn |
| | | dangos dealltwriaeth bod un peth yn cyfateb i un arall drwy baru gwrthrychau neu luniau | **deall bod sero yn golygu 'dim'** ❖ | **dangos dealltwriaeth o werth lle, *e.e. mae un 10 a phedair uned yn gwneud 14, hyd at 20 o leiaf*** ❖ | **dangos dealltwriaeth o werth lle, hyd at 100 o leiaf** ❖ |
| | | | **defnyddio ffeithiau rhif hyd at 5** ❖ | defnyddio ffeithiau rhif o fewn 10, h.y.:<br>– dyblu a haneru, e.e. *4 + 4*<br>– bondiau o 10, e.e. *6 + 4* | galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10, er mwyn deillio ffeithiau eraill, h.y.:<br>– dyblu a haneru, e.e. *cyfrifo 40 + 40 drwy wybod 4 + 4*<br>– bondiau o 10, e.e. *cyfrifo 60 + 40 drwy wybod 6 + 4* |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil Maes Dysgu ❖

# Datblygiad Mathemategol

| Llinynnau | Elfennau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio sgiliau rhif | Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau | | | **galw i gof dyblau a dyblau agos hyd at 10** ❖ | **galw i gof dyblau hyd at 20** ❖ |
| | | | | **adnabod a deall odrifau ac eilrifau hyd at 20** ❖ | **adnabod a deall odrifau ac eilrifau hyd at 100** ❖ |
| | | | **cyfrif fesul 2 i 10 a fesul 10 i 100** ❖ | **cyfrif fesul 2, 10 a 5 i 100** ❖ | **cyfrif fesul 2, 5 a 10 o unrhyw rhif a roddir** ❖ |
| | | | | | galw i gof dablau lluosi 2, 5 a 10 a'u defnyddio |
| | | | | | **dechrau cysylltu lluosi a rhannu syml, *e.e. grwpiau o 2, 5 a 10 a rhannu rhyngddynt*** ❖ |
| | | **defnyddio'r termau 'cyntaf', 'ail', 'trydydd' ac 'olaf' mewn gweithgareddau bob dydd a chwarae** ❖ | **defnyddio rhifau trefnol i 10 mewn gweithgareddau bob dydd a chwarae** ❖ | **defnyddio rhifau trefnol i 20 mewn sefyllfaoedd ymarferol** ❖ | **defnyddio a chofnodi rhifau trefnol mewn sefyllfaoedd ymarferol** ❖ |
| | | | **dechrau darllen geiriau rhifau** ❖ | **darllen ac ysgrifennu geiriau rhifau i 10** ❖ | **darllen ac ysgrifennu geiriau rhifau i 100** ❖ |
| | Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb | | | canfod haneri mewn sefyllfaoedd ymarferol | canfod haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol |
| | | | | **galw i gof haneri hyd at 10** ❖ | **dosrannu rhifau 2 ddigid a gwybod gwerth pob digid** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh    Sgil estynedig ▲    Sgil Maes Dysgu ❖

# Datblygiad Mathemategol

| Llinynnau | Elfennau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** |
| **Defnyddio sgiliau rhif** | **Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig** | deall a defnyddio'r cysyniad o 'un yn fwy' wrth chwarae | **galw i gof rhif 'un yn fwy' o fewn 10** ❖ | **galw i gof rhif 'un yn fwy' o fewn 20** ❖ | **adio 10 neu 20 yn y pen at rif a roddir hyd at 100** ❖ |
| | | deall a defnyddio'r cysyniad o 'un yn llai' wrth chwarae | **galw i gof rhif 'un yn llai' o fewn 10** ❖ | **galw i gof rhif 'un yn llai' o fewn 20** ❖ | **tynnu 10 neu 20 yn y pen at rif a roddir hyd at 100** ❖ |
| | | | cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?' | defnyddio strategaethau 'cyfrif ymlaen' i adio 2 gasgliad, gan ddechrau gyda'r rhif mwyaf, e.e. *8 + 5* | canfod gwahaniaethau bach o fewn 20 drwy ddefnyddio strategaethau 'cyfrif ymlaen' |
| | | | tynnu gwrthrychau i ffwrdd er mwyn canfod 'faint sydd ar ôl?' | adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych | galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10 a gwerth lle i adio a thynnu rhifau mwy, e.e. *24 + 4, 30 + 5, 34 +10* |
| | | | | **defnyddio ystod o strategaethau pen i ddatrys problemau o fewn 10** ❖ | **canfod gwahaniaeth bach rhwng dau rif drwy gyfrif ymlaen, *e.e. 44 – 28 =* ☐** ❖ |
| | | **defnyddio cyfrif i ddatrys problemau mathemategol syml wrth chwarae ac mewn sefyllfaoedd bob dydd** ❖ | **datrys problemau syml mewn sefyllfa ymarferol sy'n cynnwys adio a thynnu syml hyd at 5** ❖ | **datrys problemau un cam sy'n cynnwys adio a thynnu, gan gynnwys problemau rhif coll, *e.e. 7 +* ☐ *= 9,* gan ddefnyddio gwrthrychau a lluniau** ❖ | **datrys problemau un a dau gam sy'n cynnwys adio a thynnu, lluosi a rhannu syml, gan gynnwys problemau rhif coll, *e.e. 40 –* ☐ *= 19*** ❖ |
| | | | | **defnyddio ffeithiau sy'n hysbys i ddatrys problemau syml o fewn 10, *e.e. dyblu a haneru, bondiau rhif*** ❖ | **defnyddio strategaethau dosrannu er mwyn dyblu a haneru rhifau 2 ddigid** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh    Sgil estynedig ▲    Sgil Maes Dysgu ❖

# Datblygiad Mathemategol

| Llinynnau | Elfennau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio sgiliau rhif | Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig | | | **defnyddio ffeithiau rhif sy'n hysbys wrth adio tri rhif 1 digid a sylweddoli y gellir adio mewn unrhyw drefn** ❖ | **deall mai ailadrodd adio yw lluosi, *e.e. mae 2 + 2 + 2 yr un peth â 'thri lluosi dau'*** ❖ |
| | | | | | **adio/tynnu 9 neu 11 o unrhyw rif wrth adio/tynnu 10 ac addasu** ❖ |
| | | | **siarad am gyfarwyddiadau adio a thynnu wrth chwarae** ❖ | **deall a defnyddio'r symbolau mathemategol ar gyfer adio, tynnu a hafal** ❖ | **deall a defnyddio'r symbolau mathemategol ar gyfer adio, tynnu, lluosi, rhannu a hafal** ❖ |
| | | | | **deall a defnyddio'r termau mathemategol gwahanol ar gyfer adio a thynnu, *e.e. adio, cyfuno, canfod y gwahaniaeth*** ❖ | **deall a defnyddio'r termau mathemategol gwahanol ar gyfer adio, tynnu, lluosi, rhannu a hafal, *e.e. cyfanswm, rhannau, mynd i mewn i*** ❖ |
| | Amcangyfrif a gwirio | | **cynnig amcangyfrif synhwyrol o hyd at 10 o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif** ❖ | cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer nifer o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif | defnyddio strategaethau gwirio:<br>– adio eto mewn trefn wahanol<br>– defnyddio haneru a dyblu o fewn 20 |
| | | | | **cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer hyd, uchder, pwysau a chynhwysedd, y gellir eu gwirio drwy ddefnyddio mesuriadau ansafonol** ❖ | **cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer hyd, uchder, pwysau a chynhwysedd, y gellir eu gwirio drwy ddefnyddio mesuriadau safonol** ❖ |
| | Rheoli arian | dangos ymwybyddiaeth o bwrpas arian drwy chwarae rôl | defnyddio darnau arian 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau | defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at 20c | defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1 |
| | | | | canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o 10c | canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o luosrifau 10c |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil Maes Dysgu ❖

# Datblygiad Mathemategol

| Llinynnau | Elfennau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio sgiliau mesur** | **Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd** | cymharu, didoli a rhoi trefn ar ddau wrthrych neu fwy ar sail maint, pwysau neu gynhwysedd drwy arsylwi’n uniongyrchol | defnyddio’r cymariaethau canlynol yn uniongyrchol:<br>– hyd, uchder a phellter, e.e. *hirach/byrrach na*<br>– pwysau/màs, e.e. *trymach/ysgafnach na*<br>– cynhwysedd, e.e. *yn dal mwy/llai na* | defnyddio unedau ansafonol i fesur:<br>– hyd, uchder a phellter<br>– pwysau/màs<br>– cynhwysedd | defnyddio unedau safonol i fesur:<br>– hyd, uchder a phellter: metrau, hanner metrau neu gentimetrau<br>– pwysau/màs: cilogramau neu bwysau 10 gram<br>– cynhwysedd: litrau |
| | | | | | **defnyddio symbolau sy’n ymwneud â hyd, pwysau/màs a chynhwysedd** ❖ |
| | **Amser** | | | | darllen oriau a munudau ar gloc digidol 12 awr |
| | | rhagweld elfennau o drefn ddyddiol a defnyddio’r termau ‘cyn’ ac ‘ar ôl’ | defnyddio’r cysyniad o amser mewn perthynas â’u gweithgareddau bob dydd | defnyddio’r cysyniad o amser mewn perthynas a’u gweithgareddau bob dydd ac wythnosol a thymhorau’r flwyddyn | |
| | | **canu/llafarganu dyddiau’r wythnos** ❖ | **canu/llafarganu dyddiau’r wythnos, misoedd a thymhorau’r flwyddyn mewn cyd-destun ystyrlon, e.e. *wrth newid calendr y dosbarth*** ❖ | **deall a rhoi trefn ar ddyddiau’r wythnos, misoedd a thymhorau’r flwyddyn mewn cyd-destun ystyrlon** ❖ | **cofnodi dyddiau’r wythnos, misoedd a thymhorau’r flwyddyn** ❖ |
| | | | dangos dealltwriaeth cynyddol o ba mor hir y mae tasgau a gweithgareddau bob dydd yn eu cymryd | defnyddio unedau amser safonol i ddarllen faint o’r gloch yw hi ar glociau analog a chlociau digidol 12 awr | adnabod ‘hanner awr wedi’, ‘chwarter wedi’ a ‘chwarter i’ ar gloc analog |
| | **Tymheredd** | defnyddio geiriau sy’n disgrifio tymheredd mewn gweithgareddau bob dydd, e.e. *poeth/oer* | defnyddio cymariaethau uniongyrchol wrth ddisgrifio’r tymheredd, e.e. *poeth/oer* | defnyddio geiriau disgrifio ar gyfer ystod o dymheredd, e.e. *oerach/poethach* | cymharu’r tymheredd dyddiol drwy ddefnyddio thermomedr (°C) |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh  Sgil estynedig ▲  Sgil Maes Dysgu ❖

# Datblygiad Mathemategol

| Llinynnau | Elfennau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio sgiliau mesur | Arwynebedd a chyfaint<br>Ongl a safle | dilyn cyfarwyddiadau dau gam i wneud symudiadau syml mewn gemau a gweithgareddau chwarae | symud i gyfeiriadau penodol | gwneud troeon cyflawn a hanner tro | adnabod hanner a chwarter tro yn glocwedd a gwrthglocwedd |
| | | | | | adnabod bod chwarter tro yn gyfystyr ag ongl sgwâr |
| | | **dangos ymwybyddiaeth o arddodiaid a symud yn ystod eu gweithgareddau ymarferol eu hunain** ❖ | **defnyddio arddodiaid i ddisgrifio safle** ❖ | **disgrifio safle, cyfeiriad a symudiad** ❖ | **defnyddio geirfa fathemategol i ddisgrifio safle, cyfeiriad a symudiad** ❖ |
| Defnyddio sgiliau geometreg | Siâp | **adnabod a defnyddio enwau siapiau 2D (*cylch, sgwâr a thriongl*) yn eu gweithgareddau chwarae a'u hamgylchedd** ❖ | **adnabod a defnyddio enwau siapiau 2D cyffredin (*cylch, sgwâr, triongl a phetryal*) a rhai siapiau 3D (*ciwb, ciwboid a sffêr*) yn eu gweithgareddau chwarae a'u hamgylchedd** ❖ | **adnabod a defnyddio enwau siapiau 2D cyffredin (*sgwâr, triongl, petryal, cylch a hanner cylch*) a siapiau 3D (*ciwb, ciwboid, côn a sffêr*) er mwyn dechrau eu cymharu a'u didoli** ❖ | **adnabod a defnyddio enwau siapiau 2D a 3D rheolaidd ac afreolaidd, a deall a defnyddio nodweddion siâp** ❖ |
| | | **defnyddio ac adeiladu â siapiau 2D a 3D wrth chwarae** ❖ | **defnyddio siapiau 2D a 3D i greu modelau a lluniau** ❖ | **defnyddio siapiau 2D a 3D a disgrifio sut maent yn ffitio gyda'i gilydd** ❖ | **creu modelau cynyddol gymhleth neu gywir gyda siapiau 3D a brithweithio siapiau 2D** ❖ |
| | Symudiad | **defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddatblygu'r cysyniad o gymesuredd** ❖ | **cwblhau llun cymesur syml drwy amrywiaeth o gyfryngau** ❖ | **adnabod a chwblhau llun cymesur neu siâp syml** ❖ | **adnabod llinell gymesuredd siapiau 2D a chwblhau lluniau cymesur** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh   Sgil estynedig ▲   Sgil Maes Dysgu ❖

# Datblygiad Mathemategol

| Llinynnau | Elfennau | Meithrin<br>Mae plant yn gallu: | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio sgiliau data** | **Casglu a chofnodi data**<br>**Cyflwyno a dadansoddi data**<br>**Dehongli canlyniadau** | didoli a chyfateb gwrthrychau drwy adnabod elfennau tebyg | didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio un maen prawf | didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf | **didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio mwy na dau faen prawf** ❖ |
| | | dechrau cofnodi casgliadau drwy wneud marciau | cofnodi casgliadau drwy ddefnyddio marciau, rhifau neu luniau | casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu ddidoli a chyflwyno ar ffurf lluniau, gwrthrychau neu luniadau | casglu a chofnodi data o:<br>– restrau a thablau<br>– diagramau<br>– graffiau bloc<br>– pictogramau lle bo'r symbol yn cynrychioli un uned |
| | | | | llunio rhestrau a thablau yn seiliedig ar y data a gasglwyd | echdynnu a dehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau |
| | **Patrwm** | **copïo patrymau a dilyniannau syml gweledol a chlywedol,** ***e.e patrymau wedi'u clapio, gweithgareddau gosod ar linyn.*** ❖ | **adnabod ac ailadrodd patrwm a dilyniant o dri gwrthrych/lliw/clap.** ❖ | **dangos dealltwriaeth o batrymau ailadroddus, gan gynnwys siâp a rhif, drwy ddisgrifio, atgynhyrchu ac ymestyn.** ❖ | **rhoi trefn ar ac adnabod patrymau mewn cyfuniadau o wrthrychau mathemategol gan gynnwys rhifau a thablau rhifau, a thrafod y berthynas rhyngddynt.** ❖ |

**Allwedd:** Testun normal: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil Maes Dysgu ❖

# Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg

*Dylai ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sy'n cynorthwyo plant i fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, barhau i weithredu a datblygu eu polisïau iaith cyfredol. Dylent weithredu a dilyn rhaglen addysg y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.*

*Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylai sgiliau Cymraeg y plant gael eu datblygu'n raddol drwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy weithredu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg.*

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, dylai plant ddysgu defnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd eithaf eu gallu. Dylai plant wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad, a dylent ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan ddefnyddio ystod o batrymau. Dylid eu hannog i gyfleu eu hanghenion drwy gyfrwng y Gymraeg a dylid eu cyflwyno'n gynyddol i'r Gymraeg. Caiff sgiliau eu datblygu drwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau pleserus ac ymarferol a gaiff eu cynllunio, a thrwy ddefnyddio ystod o ysgogiadau sy'n cynyddu gwybodaeth a phrofiadau blaenorol plant ac sy'n adeiladu arnynt, a hynny mewn amgylcheddau dysgu diogel ac ysgogol a geir dan do ac yn yr awyr agored. Dylid defnyddio profiadau llafar y plant i ddatblygu eu sgiliau darllen, a dylid eu hannog i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen Cymraeg. Dylent wrando ar ystod o ysgogiadau, gan gynnwys deunydd clyweledol a meddalwedd rhyngweithiol TGCh yn Gymraeg. Dylai plant gael ystod o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau a datblygu eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg. Bydd sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

# Datblygu'r Gymraeg

## Llafaredd

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- brofi gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- profi gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant
- siarad/cyfathrebu at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys:
  - ymuno ag eraill mewn rhigymau a storïau syml
  - siarad gan ddefnyddio geiriau eraill yn lle'r rhai a geir mewn patrymau cyfarwydd
  - adrodd neu ganu cerddi, caneuon a rapiau Cymraeg
  - cyflwyno gwybodaeth syml
  - siarad am faterion sydd o ddiddordeb uniongyrchol a phersonol iddynt
  - gofyn ac ateb cwestiynau
  - mynegi teimladau, hoffterau, cas bethau, ac anghenion
  - cyfleu profiadau personol a dychmygus gan ddefnyddio patrymau iaith cyfarwydd
- cymryd rhan fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau o wahanol faint
- profi ystod o ysgogiadau gan gynnwys:
  - rhigymau, hwiangerddi, caneuon, storïau a cherddi syml
  - storïau, rhai gwir a rhai dychmygol
  - testunau gwybodaeth
  - testunau o'r cyfryngau a thestunau TGCh, megis rhaglenni teledu ar gyfer plant a chwedlau wedi'u hanimeiddio ar CD
- cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu digymell a gweithredol, gan gynnwys deialogau a gweithgareddau chwarae rôl.

### Sgiliau

**Dylid meithrin a hybu sgiliau llafaredd plant drwy gyfrwng profiadau synhwyraidd uniongyrchol. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau siarad, gwrando a gweld strwythuredig a digymell, dylai'r Cyfnod Sylfaen alluogi plant i wneud cynnydd yn eu gallu i:**

- gyfleu'r hyn y maent yn ei feddwl
- dangos eu bod yn deall cyfarwyddiadau syml
- gwrando ar leisiau cyfarwydd ac anghyfarwydd
- defnyddio iaith briodol mewn gweithgareddau chwarae digymell a strwythuredig ac wrth gyfleu ystyr
- edrych a gwrando'n ofalus ar amrywiaeth o ysgogiadau gweledol a chlyweledol
- gwrando ar yr hyn a glywant mewn amgylchiadau cyfarwydd ac ymateb yn syml iddo, gan ganolbwyntio a thalu sylw'n gynyddol
- siarad yn glir gan ddefnyddio geiriau, cyfarchion ac ymadroddion syml
- gwrando ar ymadroddion a chyfarwyddiadau mwyfwy cymhleth ac ymateb iddynt fel y bo'n briodol
- siarad yn hyderus gan adeiladu ar brofiad blaenorol
- siarad gan ynganu'n gywir a goslefu'n briodol
- deall bod amrywiaeth yn perthyn i'r iaith a glywant o'u cwmpas
- chwarae rôl gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystumiau a lleferydd a defnyddio iaith sy'n briodol i rôl neu sefyllfa
- ymateb i ddrama y maent wedi'i gwylio yn ogystal â drama y maent wedi cymryd rhan ynddi.

# Datblygu'r Gymraeg

## Darllen

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- glywed darlleniadau bywiog o amrywiaeth o ffynonellau
- gwerthfawrogi'r llyfrau, y storïau a'r geiriau sydd o'u cwmpas
- darllen yn unigol ac ar y cyd
- darllen deunydd dychmygus ac ymateb iddo fel y bo'n briodol, gan gynnwys:
  - rhyddiaith a barddoniaeth ar gyfer plant ifanc
  - storïau, cerddi a siantiau sy'n cynnwys iaith sy'n dilyn patrwm ac iaith y gellir ei rhagweld
  - gwaith a ysgrifennwyd ar gyfer dysgwyr
  - adnoddau gwybodaeth
- darllen amrywiaeth o adnoddau printiedig ac adnoddau TGCh a'u defnyddio at wahanol ddibenion
- dewis o blith ystod eang o lyfrau ac ymgolli ynddynt.

### Sgiliau

**Dylai'r cyfleoedd a gynigir drwy gydol y Cyfnod Sylfaen alluogi plant i fwynhau darllen a gwneud cynnydd o safbwynt eu gallu i:**

- ddilyn storïau a ddarllenir iddynt, ac ymateb fel y bo'n briodol
- gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus priodol
- edrych ar lyfrau gydag oedolyn neu heb oedolyn a thrin llyfrau fel pe baent yn eu darllen
- gwrando ar stori a ddarllenir iddynt gan ddilyn y print
- deall arwyddocâd y gair printiedig a'r berthynas rhwng symbolau printiedig a phatrymau sŵn
- defnyddio cyd-destun i ganfod ystyr geiriau cyfarwydd a dod o hyd i ystyr geiriau newydd drwy gyfrwng cliwiau mewn lluniau, synau llythrennau a ffurfiau geiriau
- darllen eu gwaith eu hunain ac adnoddau printiedig eraill yn uchel
- ailddarllen darnau y maent wedi'u mwynhau a dysgu darnau ar y cof
- dechrau darllen yn annibynnol
- dangos dealltwriaeth o'r hyn y maent hwy neu y mae eraill wedi'i ddarllen drwy ymateb ar lafar neu'n ddieiriau i'r cynnwys.

# Datblygu'r Gymraeg

## Ysgrifennu

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- ysgrifennu mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- ysgrifennu drwy gyfrwng ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio a'r rheiny a gychwynnir gan y plant
- ysgrifennu'n annibynnol ac ar y cyd wrth ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau, gan gynnwys:
  - darnau creadigol syml
  - gwybodaeth ffeithiol
  - darnau byr sy'n mynegi barn, e.e. *'Rwy'n hoffi …'*
- ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys eu cyfoedion, oedolion, aelodau o'u teulu, a hwy eu hunain.

### Sgiliau

**Dylai'r gweithgareddau a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y Cyfnod Sylfaen alluogi plant i fwynhau arbrofi â chyfathrebu ysgrifenedig a gwneud cynnydd o safbwynt eu gallu i:**

- gyfathrebu drwy:
  - arbrofi â gwneud marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
  - cynhyrchu darnau o ysgrifennu cynnar
- deall y cysylltiadau a'r gwahaniaethau rhwng:
  - ysgrifennu a chyfathrebu
  - siarad ac iaith
  - print a lluniau
- sylweddoli bod gwyddor yn sail i waith ysgrifennu a gwahaniaethu rhwng llythrennau
- cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau, lluniau, geiriau, ymadroddion a brawddegau byr
- chwarae ag iaith, fel modd i ddatblygu eu diddordeb yn yr iaith honno
- dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol, a chyfathrebu gan ddefnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau byr sydd wedi'u cysylltu â phatrymau cyfarwydd
- deall gwahanol ddibenion a swyddogaethau iaith ysgrifenedig fel modd i:
  - gofio
  - cyfathrebu
  - trefnu a datblygu syniadau a gwybodaeth ac fel ffynhonnell o fwynhad
- cynllunio ac adolygu eu gwaith ysgrifenedig
- trefnu a chyflwyno gwaith ysgrifenedig dychmygus a ffeithiol mewn gwahanol ffyrdd, e.e. *patrwm cronnus mewn cerdd, rhestr o gynhwysion ar gyfer teisen*, sy'n ddefnyddiol i'r diben, y dasg a'r darllenydd, gan ddefnyddio TGCh fel y bo'n briodol
- ysgrifennu â hyder, rhuglder a chywirdeb cynyddol
- sillafu geiriau syml yn gywir a gwirio eu sillafu drwy ddefnyddio geirfaoedd neu TGCh
- sylweddoli pwysigrwydd atalnodi fel modd i gyfleu ystyr
- datblygu eu gallu i sillafu geiriau cyffredin a chyfarwydd yn y fath fodd fel y gellir eu hadnabod
- datblygu llawysgrifen sy'n ddarllenadwy er mwyn dilyn y confensiynau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu yn y Gymraeg.

# Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Dylai plant brofi'r byd cyfarwydd drwy ymholi, gan archwilio mewn modd diogel a systematig yr amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored. Dylid cynnig profiadau iddynt sy'n eu helpu i gynyddu eu chwilfrydedd ynghylch y byd sydd o'u cwmpas a'u helpu i ddechrau deall digwyddiadau'r gorffennol, pobl a lleoedd, pethau byw, a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud. Gan ddefnyddio pob un o'u synhwyrau, dylid annog plant i fwynhau dysgu drwy archwilio, ymholi, arbrofi, gofyn cwestiynau a cheisio dod o hyd i atebion. Dylent ddysgu dangos gofal, cyfrifoldeb, consýrn a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd. Dylent ddatblygu a defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol. Dylent ddysgu mynegi eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau eu hunain gan ddangos dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Dylid datblygu sgiliau'r plant ar draws yr holl Feysydd Dysgu drwy sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu drwy brofiadau a thrwy ddefnyddio ffynonellau megis storïau, ffotograffau, mapiau, modelau a TGCh.

# Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

## Ystod

**Drwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- archwilio ystod eang o ysgogiadau
- ymdrin ag adnoddau o amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys ffurfiau rhyngweithiol
- ymchwilio i amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored, yn ogystal â chynnwys amgylchiadau naturiol wrth iddynt godi
- cymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant a'r rheiny sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol
- gweithio ar eu pen eu hunain, mewn parau ac mewn grwpiau bach.

### Lleoedd a phobl

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- ddysgu am leoliad eu hardal leol
- dysgu am bellter a sut i ddilyn cyfarwyddiadau a llwybrau
- defnyddio a llunio mapiau syml er mwyn darganfod ble y mae lleoedd penodol a sut y mae lleoedd yn cysylltu â lleoedd eraill
- adnabod y nodweddion naturiol, *e.e. afonydd, bryniau, traethau*, a'r nodweddion a grëwyd gan ddyn, *e.e. adeiladau, ffyrdd, pontydd*, yn eu hardal eu hunain
- dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru a gwahanol rannau o'r byd
- dysgu am sut a pham y mae pobl a lleoedd yn perthyn i'w gilydd, *e.e. y lleoedd y mae pobl yn gweithio ynddynt ac yn mynd ar eu gwyliau iddynt, y lleoedd y mae teulu a ffrindiau'n byw ynddynt*
- defnyddio atlasau a globau
- ymchwilio i sut y mae lleoedd yn newid, *e.e. y tywydd, y tymhorau, adeiladau, swyddi pobl*
- adnabod sut y gall gweithrediadau pobl wella neu niweidio'r amgylchedd.

### Amser a phobl

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- roi digwyddiadau, trefniadau arferol a newidiadau mewn trefn, *e.e. yn ystod taith i'r ysgol, mewn stori*
- mesur amser gan ddefnyddio dyfeisiau mesur syml, clociau, oriawr a chalendrau
- adnabod y newidiadau a gaiff eu hachosi gan dreigl amser, *e.e. y newidiadau sy'n digwydd iddynt hwy eu hunain a phobl a mannau cyfarwydd*
- sylweddoli bod rhesymau dros rai gweithrediadau a bod y gweithrediadau hynny'n gallu esgor ar ganlyniadau
- dechrau adnabod y gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau, *e.e. drwy gymharu lle cyfarwydd yn ystod gwahanol gyfnodau yn y gorffennol*

## Sgiliau

**Er mwyn profi'r byd cyfarwydd drwy archwilio'r amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored, dylid annog plant i fod yn chwilfrydig a darganfod pethau drwy:**

- archwilio ac arbrofi
- meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrando ar yr atebion
- gwrando ar syniadau pobl eraill
- nodi'r hyn y mae arnynt eisiau ei ddarganfod a nodi sut y mae gwneud hynny
- meddwl am beth allai ddigwydd pe bai…
- dod yn ymwybodol o gyflawniadau pobl a'r 'syniadau mawr' sydd wedi dylanwadu ar y byd
- ymchwilio i ffynonellau a materion
- meddwl am sut y byddant yn gwybod bod rhywbeth wedi gweithio
- gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion
- llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau
- didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau
- gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- ffurfio cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau sy'n ymwneud â Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- meddwl yn greadigol a dychmygus
- cyfleu arsylwadau a mesuriadau
- adnabod patrymau syml yn eu casgliadau
- disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml
- mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill
- defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyfarwyddo â'r geiriau hynny
- myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a gwerthuso'r gwaith hwnnw.

# Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

| Ystod | Sgiliau |
|---|---|
| • defnyddio ystod o ffynonellau hanesyddol gan gynnwys arteffactau ac adeiladau, oedolion yn dwyn eu gorffennol i gof, a ffynonellau gweledol<br>• edrych ar wahanol bortreadau a dehongliadau o'r gorffennol, *e.e. gwahanol lyfrau/lluniau/ffynonellau TGCh sy'n ymwneud â'r un person neu'r un digwyddiad*.<br><br>**Fi fy hun a phethau byw eraill**<br>**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**<br>• ddysgu enwau prif rannau allanol y corff dynol a phlanhigion, a dysgu am y modd y cânt eu defnyddio<br>• arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion, rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng gwahanol blanhigion er mwyn eu grwpio<br>• adnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy eu hunain a phlant eraill<br>• dysgu am y synhwyrau y mae pobl ac anifeiliaid eraill yn meddu arnynt ac yn eu defnyddio i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r byd sydd o'u cwmpas<br>• adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored<br>• adnabod yr effeithiau y mae'r gwahanol dymhorau'n eu cael ar rai anifeiliaid a phlanhigion.<br><br>**Fi fy hun a phethau nad ydynt yn fyw**<br>**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**<br>• arbrofi â gwahanol wrthrychau cyffredin a defnyddio eu synhwyrau i'w rhoi mewn grwpiau yn ôl nodweddion syml<br>• arbrofi â gwahanol ddefnyddiau cyffredin a defnyddio eu synhwyrau i'w rhoi mewn grwpiau yn ôl priodweddau syml<br>• datblygu ymwybyddiaeth o ddefnyddiau synthetig a defnyddiau naturiol, a gallu gwahaniaethu rhyngddynt<br>• deall sut y mae rhai defnyddiau cyffredin yn newid eu siâp wrth iddynt gael eu hymestyn, eu gwasgu, eu plygu, eu troi, eu twymo neu'u hoeri<br>• deall bod goleuni'n dod o amrywiaeth o ffynonellau, megis yr Haul, a bod tywyllwch yn deillio o ddiffyg goleuni<br>• deall bod nifer o wahanol fathau a ffynonellau o sŵn ar gael, a bod synau'n teithio oddi wrth eu ffynonellau ac yn cael eu clywed wrth iddynt gyrraedd y glust. | |

# Maes Dysgu Datblygiad Corfforol

Dylai datblygiad corfforol, brwdfrydedd ac egni plant i symud gael eu hannog yn barhaus drwy eu helpu i ddefnyddio eu cyrff yn effeithiol. Dylid gwneud hynny drwy hybu eu hymwybyddiaeth ofodol, eu cydbwysedd, eu rheolaeth a'u sgiliau cydsymud, a datblygu eu sgiliau echddygol a llawdriniol. Dylent ddatblygu eu sgiliau echddygol bras a manwl, rheolaeth gorfforol, symudedd ac ymwybyddiaeth o le gan ddefnyddio offer mawr a bach ar draws yr holl Feysydd Dysgu, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Dylid annog plant i fwynhau gweithgarwch corfforol. Dylai'r broses o ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth fod wedi'i chysylltu'n agos â hunanddelwedd, hunan-barch a hyder plant. Dylid eu cyflwyno i'r cysyniadau sy'n ymwneud ag iechyd, hylendid a diogelwch, a'u cyflwyno i bwysigrwydd deiet, gorffwys, cysgu ac ymarfer corff.

# Datblygiad Corfforol

## Ystod

**Drwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:**

- archwilio eu hamgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored, ac ymchwilio iddynt
- archwilio ystod eang o ysgogiadau ac adnoddau, ymchwilio iddynt a'u defnyddio
- cymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant
- ymarfer chwarae gemau o wahanol fathau
- datblygu eu sgiliau echddygol bras a manwl drwy eu gweithgareddau ymarferol a defnyddio offer a chyfarpar amrywiol, gan gynnwys TGCh
- cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sy'n cynnig modd iddynt weithio fel unigolion, gyda phartner ac mewn grwpiau bach, rhannu syniadau a helpu ei gilydd i wella eu gwaith.

## Sgiliau

Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgil a pherfformiad y corff yn y meysydd canlynol.

### Personol

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- ddatblygu sgiliau cydsymud
- datblygu sgiliau echddygol bras
- datblygu sgiliau llawdriniol manwl
- datblygu hyder
- rheoli symudiadau'r corff
- datblygu ffyrfder (tone) y cyhyrau, tyndra priodol a chydbwysedd
- datblygu ymwybyddiaeth synhwyraidd
- defnyddio ystod o ysgogiadau ac offer mawr a bach
- cysylltu'r gweithrediadau syml mewn dilyniant, a gwella'n raddol eu rheolaeth ar wahanol siapiau, lefelau a chyfeiriadau teithio a'u defnydd ohonynt
- defnyddio a thrin ystod o declynnau.

### Chwarae anturus a chorfforol

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- ddatblygu dealltwriaeth o'r modd y mae eu cyrff yn symud
- gallu symud yn ddiogel, gan ddangos rheolaeth a sgiliau cydsymud cynyddol
- tyfu'n hyfedr yn y gweithrediadau sylfaenol sy'n ymwneud â theithio, gan gynnwys camu, neidio a glanio, trosglwyddo pwysau o'r traed i'r dwylo, cadw cydbwysedd, rholio, troi, dringo a swingio, a hynny ar y llawr ac wrth ddefnyddio ystod o offer a chyfarpar
- cysylltu'r gweithrediadau syml mewn dilyniant, a gwella'n raddol eu rheolaeth ar wahanol siapiau, lefelau a chyfeiriadau teithio a'u defnydd ohonynt
- deall, gwerthfawrogi a mwynhau'r gwahaniaethau rhwng rhedeg, cerdded, sgipio, neidio, dringo a hercian
- gwella eu gwybodaeth am ymwybyddiaeth ofodol a pherthnasoedd megis y tu ôl, o dan, islaw, dros, dan ac ar ben
- deall rheolau ac elfennau gemau, a gallu chwarae gemau cydweithredol a chystadleuol syml
- gallu cymhwyso gwybodaeth, *e.e. symud i osgoi eraill a gwybod sut i ymosod ar darged a'i amddiffyn*
- darganfod ac ymarfer amrywiaeth o wahanol ffyrdd o anfon, derbyn a theithio gan ddefnyddio offer bach
- datrys problemau syml gyda phartner, megis sut i ddefnyddio, dod o hyd, cael yn ôl neu cario gwrthrychau, sgorio pwyntiau ac ati.

# Datblygiad Corfforol

| Ystod | Sgiliau |
|---|---|
| | **Iechyd, ffitrwydd a diogelwch**<br>**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**<br>• adnabod yr effeithiau a gaiff ymarfer corff ar eu cyrff wrth iddynt symud<br>• disgrifio’r hyn sy’n digwydd i’w hanadl a sut y maent yn ymddangos ac yn teimlo ar ôl gwneud ymarfer corff<br>• dechrau deall bod ymarfer corff rheolaidd yn gwella iechyd a ffitrwydd, a’i fod yn helpu rhannau’r corff i weithio’n dda<br>• defnyddio cyfarpar mawr ac offer bach<br>• dod yn ymwybodol o beryglon a materion yn ymwneud â diogelwch yn eu hamgylchedd<br>• dechrau deall pwysigrwydd codi, cario, gosod a defnyddio offer yn ddiogel. |

# Maes Dysgu Datblygiad Creadigol

Dylai plant ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn barhaus ar draws y cwricwlwm. Dylai eu chwilfrydedd a'u tuedd naturiol i ddysgu gael eu hysgogi gan brofiadau synhwyraidd bob dydd, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Dylai plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol ym maes celf, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawns a symud. Dylai plant archwilio ystod eang o ysgogiadau, datblygu eu gallu i gyfleu a mynegi eu syniadau creadigol, a myfyrio ynghylch eu gwaith.

# Datblygiad Creadigol

| Ystod | Sgiliau |
|---|---|
| **Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**<br>• archwilio'r amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored, ymchwilio iddynt a'u defnyddio<br>• cymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt weithio fel unigolion ac mewn grwpiau<br>• defnyddio ystod eang o adnoddau ac ysgogiadau<br>• profi traddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau<br>• cael profiad o gelf, crefft, gwaith dylunio, cerddoriaeth a dawnsiau o Gymru a diwylliannau eraill. | **Celf, crefft a dylunio**<br>**Dylai sgiliau plant ym maes celf, crefft a dylunio gael eu meithrin a'u hybu wrth iddynt ddefnyddio eu synhwyrau, eu dychymyg a'u profiad. Dylai gweithgareddau celf, crefft a dylunio creadigol a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen alluogi plant i fynegi eu hunain yn rhydd a gwneud cynnydd o safbwynt eu gallu i:**<br>• archwilio amrywiaeth o dechnegau a defnyddiau ac arbrofi â hwy<br>• gwneud dewisiadau wrth ddewis defnyddiau ac adnoddau<br>• cymysgu, siapio, trefnu a chyfuno defnyddiau er mwyn creu eu delweddau a'u gwrthrychau eu hunain sy'n cyfleu ac yn mynegi eu syniadau, eu teimladau a'u hatgofion mewn modd creadigol<br>• datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liwiau, llinellau, tôn, gwead, patrwm, siâp a ffurf<br>• datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio<br>• defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiadu ac offer i arbrofi a datrys problemau<br>• dylunio a gwneud cynnyrch a mecanweithiau syml<br>• myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.<br><br>**Cerddoriaeth**<br>**Dylai sgiliau cerddorol plant gael eu meithrin a'u hybu wrth iddynt ddefnyddio eu synhwyrau, eu dychymyg a'u profiad. Dylai gweithgareddau cerdd creadigol a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen alluogi plant i wneud cynnydd o safbwynt eu gallu i:**<br>• archwilio ystod o ffynonellau sŵn ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o gynhyrchu a threfnu synau<br>• creu eu syniadau cerddorol eu hunain a chyfrannu i gyfansoddiadau syml<br>• canu ystod o ganeuon gydag eraill<br>• chwarae patrymau rhythmig a melodig syml ar amrywiaeth o offerynnau<br>• adnabod a disgrifio synau, a gwrando ar gerddoriaeth ac ymateb iddi<br>• myfyrio ynghylch eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill<br>• datblygu rheolaeth gynyddol ar yr elfennau cerddorol wrth greu cerddoriaeth<br>• gwahaniaethu'n fras rhwng yr elfennau cerddorol wrth wrando ar gerddoriaeth. |

# Datblygiad Creadigol

| Ystod | Sgiliau |
| --- | --- |
| | **Symud creadigol**<br>**Dylai sgiliau plant ym maes symud creadigol gael eu meithrin a'u hybu wrth iddynt ddefnyddio eu synhwyrau, eu dychymyg a'u profiad. Dylai gweithgareddau symud creadigol a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen alluogi plant i wneud cynnydd o safbwynt eu gallu i:**<br>• archwilio a mynegi ystod o hwyliau a theimladau drwy gyfrwng amrywiaeth o symudiadau<br>• datblygu eu hymatebion i wahanol ysgogiadau megis cerddoriaeth, lluniau, geiriau a syniadau<br>• datblygu eu rheolaeth drwy gysylltu symudiadau er mwyn creu cyfres o wahanol lwybrau a siapiau â'u cyrff<br>• gweithio ar eu pen eu hunain a gydag eraill i esgus, ymateb yn fyrfyfyr a meddwl yn ddychmygus<br>• gweithio ar eu pen eu hunain, gyda phartner neu mewn grŵp bach i ddatblygu eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill a'u helpu i fyfyrio ynghylch y syniadau hynny<br>• perfformio symudiadau neu batrymau, gan gynnwys rhai sy'n perthyn i ddawnsiau gwerin Cymreig a dawnsiau o ddiwylliannau eraill. |

# Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen

Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y Graddfeydd a'r Disgrifiadau Asesu Sylfaenol presennol yn ogystal â disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Maent wedi'u datblygu i fod o gymorth i'r asesiadau athrawon statudol a wneir ar ddiwedd y cyfnod.

Mae'r asesiadau athrawon yn ymdrin â holl ystod a chwmpas continwwm dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Dylai'r asesiad hwnnw roi ystyriaeth i dystiolaeth o gyrhaeddiad mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys tystiolaeth a ddaeth i law wrth drafod ac arsylwi drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'n rhaid i athrawon asesu'r deilliannau y mae pob plentyn wedi'u cyflawni yn y meysydd isod ac adrodd arnynt mewn asesiadau athrawon:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg
- Datblygiad Mathemategol.

Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn disgrifio'r mathau a'r ystod o gyraeddiadau sy'n nodweddiadol o blant yn y Cyfnod Sylfaen. Wrth benderfynu ar ddeilliant plentyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y plentyn. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

Y nod yw dod i farn cytbwys:

- sydd wedi'i seilio ar wybodaeth ynghylch sut y mae'r plentyn yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n rhoi ystyriaeth i'r gwahanol gryfderau a gwendidau sy'n perthyn i berfformiad y plentyn hwnnw
- a gaiff ei wirio yn erbyn deilliannau cyfagos er mwyn sicrhau mai'r deilliant a ddyfernir sy'n gweddu orau i berfformiad y plentyn.

# Deilliannau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

## Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cymryd rhan mewn gemau cymdeithasol a gychwynnir gan blant hŷn a/neu oedolion. Byddant yn ymateb i gael eu tawelu ac yn dangos ystod o emosiynau sylfaenol yn glir. Byddant yn archwilio'r amgylchedd yn fwriadol ac yn deall achos ac effaith sylfaenol. Yn ystod sesiynau chwarae un i un, bydd eu sylw yn symud rhwng y gwrthrych a'r un sy'n rhoi gofal.

## Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cymryd rhan mewn gemau un i un amrywiol a gychwynnir gan blant hŷn a/neu oedolion ac yn archwilio gweithgareddau am gyfnod byr. Byddant fel arfer yn ymateb i gael eu rheoli gan oedolyn sy'n gyfarwydd iddynt. Byddant yn rhoi gwahanol ymatebion i rai sy'n rhoi gofal ac oedolion anghyfarwydd ac yn dechrau mynegi beth maent yn ei hoffi orau. Byddant yn dangos dealltwriaeth o wrthrychau a ddefnyddir mewn arferion gofal.

## Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn chwarae yn agos at blant eraill neu oedolion gan ddangos diddordeb o bryd i'w gilydd yn yr hyn y maent yn ei wneud. Byddant yn ymateb yn briodol i ffiniau cyson. Byddant yn dechrau mynegi diddordeb mewn cyfres o weithgareddau cyfarwydd, ac yn mynegi'n syml beth maent yn ei hoffi orau ac yn ymateb yn briodol i gyfarchion cymdeithasol gan bobl sy'n gyfarwydd iddynt. Byddant yn dechrau helpu gydag arferion gofal cyfarwydd.

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn ddibynnol ar oedolion cyfarwydd o safbwynt emosiynol. Byddant wedi dechrau mynegi'n syml sut y maent yn teimlo a byddant yn ymateb i gyfarchion cymdeithasol. Efallai y byddant yn strancio pan fyddant yn teimlo'n rhwystredig, ond byddant yn dysgu bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol. Byddant wedi dechrau chwarae rôl ar eu pen eu hunain neu'n gyfochrog â phlant eraill, a hynny'n aml wrth ymyl oedolyn cyfarwydd. Efallai y bydd angen cymorth ar y plant mewn perthynas â sgiliau hunangymorth (personol) pob dydd ond byddant yn awyddus i helpu fel rheol. Byddant yn dangos gwybodaeth o drefniadau arferol cyfarwydd sy'n ymwneud â gofal.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn hoffi helpu oedolion a chyfoedion ond nid pan fo hynny'n gwrthdaro â'r hyn sydd o fudd iddynt hwy. Byddant yn dangos hoffter at blant eraill ac efallai y byddant yn chwarae gyda hwy. O gael cymorth gan oedolyn, bydd y plant yn barod i rannu teganau ac adnoddau, a byddant yn cymryd eu tro i wneud rhywbeth. Bydd y plant wedi dod yn ymwybodol o'u teimladau a'u hemosiynau eu hunain, a byddant yn dechrau uniaethu â theimladau ac emosiynau pobl eraill. Byddant yn ceisio bod yn annibynnol ond bydd arnynt angen cymorth weithiau. Byddant yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol, yn enwedig peryglon.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant wedi tyfu'n fwy annibynnol o safbwynt eu gwaith dysgu a byddant yn gallu ymdopi â newidiadau i drefniadau arferol. Byddant yn adnabod anghenion pobl eraill ac yn dangos sensitifrwydd cynyddol tuag at yr anghenion hynny. Byddant yn dechrau adnabod ymddygiad priodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb i reswm. Byddant yn dechrau deall y dylid trin popeth byw â gofal, parch a phryder. Byddant yn dangos peth rheolaeth ar eu hemosiynau a byddant yn aml yn mabwysiadu safonau ymddygiad oedolion sy'n agos atynt. Byddant yn gallu diwallu'r rhan fwyaf o'u hanghenion personol yn annibynnol

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cymryd rhan yn annibynnol mewn gweithgareddau chwarae ar y cyd. Byddant yn dangos hunanreolaeth gynyddol a byddant yn gallu aros i'w hanghenion gael eu diwallu. Byddant yn gallu canolbwyntio ar dasg, a bydd ganddynt hoffterau a chas bethau pendant. Byddant yn cefnogi, yn cysuro ac yn helpu plant eraill pan fyddant yn drist neu wedi cynhyrfu. Byddant yn tyfu'n fwyfwy ymwybodol o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy a'u cyfoedion, a byddant yn adnabod gwahaniaethau ac amrywiaeth ddiwylliannol. Byddant yn mwynhau gofalu am yr amgylchedd, megis planhigion ac anifeiliaid anwes. Byddant yn ymwybodol o arferion bwyta'n iach, a gallant wahaniaethu rhwng bwydydd iach a bwydydd nad ydynt yn iach.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cymdeithasu, yn cydweithredu ac yn cyfathrebu'n briodol â'u cyfoedion ac oedolion cyfarwydd, a byddant yn gofyn am gymorth pan fo angen. Byddant yn adnabod eu teimladau a gallant eu mynegi'n briodol. Byddant yn parchu eraill ac yn gwerthfawrogi eu cyflawniadau. Bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, a byddant yn fwy ymwybodol o deimladau, safbwyntiau a chredoau pobl eraill. Byddant wedi deall y cysyniad o chwarae teg, a bydd ganddynt ddealltwriaeth o reolau a pham y mae'r rheolau hynny wedi'u llunio. Bydd ganddynt well dealltwriaeth o ganlyniadau eu gweithrediadau, a byddant yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud. Ar y cyfan, byddant yn gallu rheoli eu hemosiynau ac ymdopi â siom. Byddant yn deall y bydd angen iddynt fwyta ac yfed yn briodol er mwyn cadw eu cyrff yn iach.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant wedi dysgu eu bod yn gallu rheoli eu hemosiynau a'u bod yn gwneud hynny'n aml. Byddant wedi dechrau gwneud ffrindiau sy'n bwysig iawn iddynt, a bydd eilunod/arwyr yn chwarae rhan bwysig yn eu chwarae a'u bywydau. Byddant yn deall bod gan bobl wahanol hoffterau, safbwyntiau a chredoau, a bydd ganddynt ddealltwriaeth o'r modd y dylent ymwneud ag eraill o safbwynt moesegol a moesol. Byddant wedi symud ymlaen i allu gweld pethau o safbwynt plant eraill ac oedolion. Byddant yn dangos medrusrwydd wrth adnabod problemau a chanfod ffyrdd o'u datrys. Byddant yn gallu dangos eu bod yn medru dyfalbarhau, canolbwyntio a chymell. Byddant yn dangos hunanreolaeth briodol. Byddant yn deall sut y gallant wella eu gwaith dysgu a byddant yn gallu myfyrio.

# Deilliannau Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn dangos diddordeb wrth wrando ar ganeuon a rhigymau. Byddant yn defnyddio cyswllt llygad i ymateb i oedolyn ac yn ystod eu hymwneud cymdeithasol ag eraill. Byddant yn ymateb gyda dealltwriaeth i rai geiriau a ddefnyddir yn eu cyd-destun arferol. Byddant yn ailadrodd ac yn defnyddio rhai synau neu eiriau syml yn bwrpasol ac yn ceisio enwi gwrthrychau cyfarwydd. Byddant yn archwilio gwrthrychau cyffredin ac yn dangos diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

**Darllen** – Bydd y plant yn ymateb i ysgogiadau gweladwy a chyffyrddadwy. Byddant yn dangos diddordeb mewn llyfrau lluniau syml.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn arbrofi gyda gwneud marciau heb bwrpas.

## Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn mynegi diddordeb mewn caneuon a rhigymau cyfarwydd ac yn ymuno i mewn yn y rhannau cyfarwydd. Byddant yn ymateb i gyfathrebu syml gan oedolion. Byddant yn defnyddio rhai geiriau syml sy'n ddealladwy i oedolion cyfarwydd, gan eu cysylltu ynghyd i greu ystyr. Byddant yn defnyddio rhai geiriau y mae modd eu hadnabod i enwi gwrthrychau cyfarwydd. Bydd eu sylw yn symud rhwng pethau sydd o ddiddordeb, a byddant yn dangos beth maent yn ei hoffi a beth nad ydynt yn ei hoffi yn syml. Byddant yn defnyddio gwrthrychau cyffredin gyda phwrpas. Byddant yn dangos diddordeb mewn gweithgareddau grŵp sy'n cael eu harwain gan oedolion neu blant hŷn.

**Darllen** – Bydd y plant yn archwilio llyfrau cyffyrddadwy a rhyngweithiol gyda chefnogaeth ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau sy'n cynnwys lluniau neu sy'n gyffyrddadwy sy'n cael eu darllen iddynt.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn dechrau arbrofi gyda gwneud marciau â phwrpas.

## Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn mynegi diddordeb mewn caneuon a rhigymau cyfarwydd a newydd ac yn ymuno gyda'r canu neu'n gwneud y gweithrediadau. Byddant yn ymateb i gyfarwyddiadau un cam syml a chyfarwydd. Byddant yn dechrau dod yn fwy dealladwy i oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd, gan ddefnyddio brawddegau syml yn cynnwys mwy na dau air a siarad am wrthrychau cyfarwydd. Byddant yn dynwared arferion rheolaidd, ac yn defnyddio gwrthrychau cyffredin gyda phwrpas. Byddant yn ymateb ar lafar mewn termau syml ac yn ymuno mewn gweithgareddau grŵp sy'n cael eu harwain gan oedolion neu blant hŷn.

**Darllen** – Bydd y plant yn ymchwilio'n annibynnol i lyfrau cyffyrddadwy a rhyngweithiol. Byddant yn adnabod hoff lyfrau a storïau ac yn gallu dod o hyd iddynt yn ôl y ffordd y maent yn edrych.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn dechrau arbrofi gyda gwneud marciau â phwrpas gyda'r naill law neu'r llall.

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn gwrando ar ganeuon a rhigymau ac yn ymuno ynddynt a, gyda chefnogaeth, byddant yn dechrau cymryd rhan mewn chwarae â geiriau. Byddant yn dilyn cyfarwyddiadau un cam ar hap ac yn dangos dealltwriaeth o ymadroddion syml. Byddant yn 'siarad' â'u hunain, plant eraill ac oedolion cyfarwydd gan ddefnyddio brawddegau syml. Byddant yn siarad am wrthrychau cyfarwydd, yn defnyddio geiriau y maent newydd eu dysgu wrth iddynt chwarae ac yn dangos chwilfrydedd mewn ysgogiadau, gan fynegi boddhad neu ddiddordeb. Byddant yn dynwared profiadau bywyd go iawn byr a phrofiadau dychmygol ac yn mynegi hyn ar lafar fel rhan o'u chwarae symbolaidd. Byddant yn dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau ynghyd ag oedolion neu blant eraill.

**Darllen** – Bydd y plant yn deall strwythur sylfaenol deunyddiau darllen. Byddant yn dilyn testun sy'n cael ei ddarllen gan oedolyn cyfarwydd ac yn dechrau cynnig gwybodaeth am destunau cyffredin. Byddant yn dechrau adnabod gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng lluniau, siapiau, patrymau a gweadau.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn arbrofi gyda gwneud marciau, siapiau a symbolau pwrpasol a byddant yn dechrau defnyddio offer yn y naill law neu'r llall. Byddant yn sgriblo, gwneud siapiau neu luniau i fynegi brawddeg.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn gwrando ar ganeuon a rhigymau ac yn ymuno i mewn a byddant yn cymryd rhan mewn chwarae â synau a geiriau. Byddant yn gwrando ar gyfarwyddiadau dau gam a chysyniadau sylfaenol, gan dalu mwy o sylw a chanolbwyntio fwyfwy, ac yn gofyn neu'n ateb cwestiynau syml. Byddant yn defnyddio brawddegau yn cynnwys pum gair neu fwy, gan siarad yn glir â phlant eraill ac oedolion cyfarwydd. Byddant yn defnyddio geiriau y maent newydd eu dysgu wrth iddynt chwarae ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau a gweithgareddau gydag eraill. Byddant yn ymateb i ysgogiadau creadigol ac mewn termau syml, byddant yn ailadrodd hanes digwyddiad neu brofiad ac yn siarad am bethau maent wedi'u gwneud. Byddant yn dynwared profiadau bywyd go iawn a dychmygol wrth chwarae ac mewn chwarae dychmygol a byddant yn siarad wrth gymryd rhan mewn chwarae symbolaidd. Byddant yn cymryd rhan mewn trafodaethau a gweithgareddau ynghyd ag oedolion neu blant eraill.

**Darllen** – Bydd y plant yn dal llyfrau y ffordd gywir ac yn troi'r tudalennau, yn dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen ac yn gwneud synnwyr o luniau. Byddant yn galw i gof fanylion testunau, yn dechrau gwneud cysylltiadau syml â'u profiadau eu hunain ac yn ymateb yn briodol. Byddant yn adnabod gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng gwrthrychau ac ysgogiadau gweledol a chyffyrddadwy a byddant yn cysylltu gwrthrychau a delweddau â synau cychwynnol a siaredir.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn ysgrifennu llythrennau neu symbolau ar hap wrth arbrofi gyda gwneud marciau, gan ddangos dealltwriaeth o'r cyfeiriad y mae print ysgrifenedig yn symud iddo a byddant yn sylweddoli bod modd i eiriau sy'n cael eu dweud ar lafar gael eu hysgrifennu ar bapur. Byddant yn adnabod rhai synau llythrennau drwy archwilio eu siâp. Gyda chefnogaeth, byddant yn gallu llunio brawddeg ar lafar a chyfrannu at ffurf a ddefnyddir gan oedolyn.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Gyda chefnogaeth, bydd y plant yn dysgu caneuon a rhigymau ar y cof ac yn eu perfformio ac yn dangos cydnabyddiaeth o rhythm, cyflythreniad ac odl. Byddant yn chwarae â synau mewn geiriau, gan gynnwys synau cychwynnol. Byddant yn dangos eu bod wedi gwrando ar eraill ac yn deall cyfarwyddiadau tri cham a chysyniadau sylfaenol. Byddant fel arfer yn ymateb i eraill ac ysgogiadau ac yn gofyn cwestiynau priodol am yr hyn sydd wedi cael ei ddweud. Byddant yn siarad yn glir ac yn glywadwy gydag hyder ac eglurder cynyddol ac mae'r rhan fwyaf o'r synau a'r geiriau yn cael eu hynganu yn gywir. Byddant yn defnyddio ystod eirfa briodol, sy'n cynyddu, gan ddefnyddio brawddegau llawn, a byddant yn rhannu syniadau ac yn rhyngweithio ag eraill. Byddant yn ymateb i ysgogiadau creadigol, yn ailadrodd storïau ac yn rhannu gwybodaeth a siarad am y pethau y maent wedi'u gwneud, gan fynegi beth y maent yn ei hoffi a beth nad ydynt yn ei hoffi. Byddant yn dynwared profiadau bywyd go iawn a dychmygol, gan ddefnyddio iaith berthnasol ac yn defnyddio siarad i greu storïau.

**Darllen** – Bydd y plant yn dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau, ac yn deall confensiynau print a nodweddion syml testun i wahaniaethu rhwng storïau a thestunau ffeithiol. Byddant yn ailadrodd storïau cyfarwydd mewn ffyrdd syml a byddant yn dod o hyd i wybodaeth o destunau gan ddefnyddio geiriau a nodweddion gweledol, gan greu cysylltiadau â phrofiadau personol. Byddant yn sylweddoli bod geiriau yn cael eu gwneud o ffonemau a'u bod yn cael eu cynrychioli gan raffemau. Byddant yn darllen rhai geiriau cyfarwydd, syml gan ddefnyddio strategaethau gyda chefnogaeth a byddant yn dangos ymwybyddiaeth o atalnodi syml.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn deall bod yr wyddor yn cael ei defnyddio wrth ysgrifennu a byddant yn gallu llunio rhai llythrennau ac, o bryd i'w gilydd, geiriau a brawddegau syml, gan ysgrifennu o'r chwith i'r dde. Byddant yn gwahaniaethu rhwng llythrennau, yn defnyddio'r cytseiniaid cychwynnol cywir ac yn dechrau defnyddio strategaethau i sillafu geiriau llafariad-cytsain, cytsain-llafariad-cytsain a geiriau aml eu defnydd. Byddant yn gwahaniaethu rhwng llythrennau bach a phriflythrennau ac yn dangos ymwybyddiaeth o'r atalnod llawn a bylchau rhwng geiriau. Byddant yn cyfrannu at ffurf sy'n cael ei defnyddio gan oedolyn, gan ddangos dealltwriaeth sy'n datblygu o wahanol ffurfiau a chyfleu ystyr drwy roi geiriau, symbolau a lluniau at ei gilydd. Ar lafar, byddant yn llunio ac yn arddweud brawddegau, gan ddisgrifio digwyddiadau, profiadau a lluniau i gyfleu ystyr.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn ymuno mewn rhigymau, caneuon a cherddi, yn eu hailadrodd neu'n eu dysgu ar y cof, a byddant yn defnyddio cyflythreniad ac odl i greu rhai eu hunain. Byddant yn cydweddu ac yn segmentu synau mewn geiriau. Byddant yn gwrando ar siaradwyr neu ysgogiadau eraill gan dalu mwy o sylw, a byddant yn ymateb yn briodol fel arfer i wybodaeth a chyfarwyddiadau cymhleth ac yn gofyn cwestiynau manwl i ddeall yn well. Byddant yn siarad yn glir ac yn glywadwy, gan gyfleu neges i ystod o wrandawyr. Byddant yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol ar gyfer chwarae neu gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig, a byddant yn cyfleu eu hunain yn glir drwy ddewis eu geiriau yn fwriadol a threfnu'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Byddant yn siarad ag eraill ac yn ymateb iddynt yn ystod gweithgareddau a rennir ac yn ymestyn syniadau neu'r hyn maent yn ei gofio mewn perthynas â phynciau cyfarwydd, gan ddangos ymwybyddiaeth o anghenion y gwrandawyr. Byddant yn perfformio rolau bywyd go iawn neu ddychmygol gan ddefnyddio iaith briodol.

**Darllen** – Bydd y plant yn siarad am nodweddion testun syml ac yn eu defnyddio i ddod o hyd i gynnwys a chysylltu nodweddion gweledol â thestun ysgrifenedig. Byddant yn ailadrodd digwyddiadau o naratif yn y drefn gywir. Byddant yn galw i gof wybodaeth o destunau, gan ddefnyddio profiadau personol i gefnogi eu dealltwriaeth. Byddant yn adnabod geiriau cyfarwydd ac yn defnyddio strategaethau i ddatrys rhai eraill, gan ddilyn print gyda'u llygaid a byddant yn mynegi'r atalnodi wrth ddarllen.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn llunio llythrennau bach a phriflythrennau sydd fel arfer wedi'u siapio'n glir ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Byddant yn defnyddio strategaethau i sillafu geiriau cytsain-llafariad-cytsain hirach a geiriau aml eu defnydd yn gonfensiynol a byddant yn meithrin ymwybyddiaeth o ffonemau. Byddant yn dechrau defnyddio cysyllteiriau a rhai geiriau trefnu wrth ysgrifennu a byddant yn defnyddio priflythrennau ac atalnod llawn gyda rhywfaint o gysondeb. Byddant yn defnyddio iaith ysgrifenedig yn annibynnol at wahanol ddibenion, gan ddilyn ffurf y mae oedolyn yn ei defnyddio, a byddant yn gallu mynegi cynnwys yn y drefn gywir. Byddant yn siarad am yr hyn y maent yn bwriadu ei ysgrifennu ac yn defnyddio cynllun syml i gefnogi'r ysgrifennu a'i drefnu.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn galw i gof gasgliad cynyddol o rigymau, caneuon, cerddi a cherddi nonsens a byddant yn defnyddio rhythm ac odl i greu rhai eu hunain. Byddant yn cydweddu ac yn segmentu geiriau amlsillafog. Byddant yn canolbwyntio wrth wrando ar eraill neu ysgogiadau, yn gofyn cwestiynau manylach i ddod i ddeall yn well, yn ymateb i bwyntiau allweddol ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth i'w profiad eu hunain. Byddant yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol, yn trefnu'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud, yn defnyddio brawddegau mwy cymhleth ac yn cynnwys manylion perthnasol i sicrhau bod eraill yn eu deall yn glir, wrth chwarae, mewn gweithgareddau strwythuredig ac mewn sefyllfaoedd ffurfiol o flaen ystod gynyddol o gynulleidfaoedd, gyda mwy a mwy o hyder a rhuglder a chan ddewis geiriau yn bwrpasol a defnyddio amrywiaeth er mwyn bod yn fwy diddorol. Byddant yn cymryd rhan mewn trafodaethau ac yn rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion gwrandawyr ac yn mynegi barn ar amryw o bynciau yn ogystal â siarad yn fanwl yn eu cylch. Byddant yn perfformio rolau real neu ddychmygol penodol, gan ddefnyddio iaith briodol.

**Darllen** – Bydd y plant yn dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau am eu dewis a defnyddio testunau fel ffynhonnell gwybodaeth drwy ddefnyddio nodweddion testun. Byddant yn egluro manylion perthnasol o destunau ac yn galw i gof ac yn ailadrodd naratif a gwybodaeth gan dynnu ar eu profiadau personol, eu gwybodaeth flaenorol a gwybodaeth newydd i gefnogi eu dealltwriaeth. Byddant yn defnyddio ystod o strategaethau pan fyddant yn darllen testunau anghyfarwydd addas er mwyn penderfynu ar yr ystyr a dilyn y print yn gyflymach gyda'u llygaid gyda mwy o gywirdeb, rhuglder a phwyslais.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn llunio llythrennau bach a phriflythrennau yn gywir, ac mae'r llythrennau yn gyson o ran eu maint ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Byddant yn defnyddio'r hyn y maent yn ei wybod am sillafau i sillafu geiriau aml eu defnydd a geiriau amlsillafog, gan gynnwys rhai ôl-ddodiaid syml. Byddant yn defnyddio cysyllteiriau, geiriau trefnu, atalnodi mynegiannol a gramadeg syml yn gywir wrth ysgrifennu. Byddant yn defnyddio iaith ysgrifenedig ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan ddatblygu ar ffurf sy'n cael ei ddefnyddio gan oedolyn, a byddant yn strwythuro cynnwys yn gywir ac yn ymestyn eu hysgrifennu. Byddant yn defnyddio eu siarad i gynllunio ac ailddarllen eu gwaith ysgrifennu i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

**Llafaredd** – Bydd y plant yn defnyddio casgliad eang o rigymau, caneuon a cherddi ac yn creu rhai eu hunain. Byddant yn hyderus wrth ddefnyddio eu hymwybyddiaeth ffonolegol. Byddant yn defnyddio sylwadau a chwestiynau perthnasol i ddangos eu bod wedi gwrando'n astud i amrywiaeth o siaradwyr neu ysgogiadau a byddant yn dechrau gwneud cysylltiadau rhwng yr wybodaeth a gânt gan siaradwr a'r hyn maent eisoes yn ei wybod. Byddant yn parhau i ddatblygu eglurder wrth siarad, gan ddefnyddio tôn a goslef ac addasu iaith ar gyfer sefyllfaoedd penodol. Byddant yn cyfleu gwybodaeth, yn dewis eu geiriau'n fwriadol, ac yn trefnu'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud ac yn defnyddio brawddegau mwy cymhleth sy'n cynnwys manylion perthnasol. Byddant yn addasu eu siarad at ofynion y gynulleidfa, ac yn amrywio'r eirfa a ddefnyddir a lefel y manylion. Byddant yn defnyddio trafodaethau, syniadau a gwybodaeth yn bwrpasol i gwblhau tasg, gan ymchwilio i syniadau, eu hegluro a'u rhannu a phwysleisio'r prif bwyntiau. Byddant yn cynnal rolau real neu ddychmygol, gan ddefnyddio iaith briodol.

**Darllen** – Bydd y plant yn darllen yn annibynnol ac yn defnyddio strategaethau priodol i benderfynu beth yw'r ystyr, gan ddarllen yn rhugl a chyda mynegiant. Byddant yn gallu gweld beth yw gwahanol bwrpas testunau a'r ffordd y maent wedi'u trefnu, sgimio dros gynnwys wrth ddarllen a dewis testunau ar sail eu hanghenion. Byddant yn gallu adnabod pwnc testun a'r prif syniadau, gan ddefnyddio gwybodaeth y maent yn ei chael drwy greu cysylltiad rhwng testunau a defnyddio gwybodaeth sydd y tu hwnt i'w profiad personol.

**Ysgrifennu** – Bydd y plant yn cynhyrchu llawysgrifen ddealladwy, sy'n gyson â llawysgrifen oedolyn. Byddant yn defnyddio strategaethau i sillafu geiriau aml eu defnydd, geiriau amlsillafog a geiriau lluosog yn gywir. Byddant yn dechrau brawddegau mewn amrywiol ffyrdd, gan ddefnyddio cysylltеiriau ar gyfer creu effaith a defnyddio gwahanol fathau o eiriau ac atalnodi yn gywir. Byddant yn defnyddio nodweddion ystod eang o ffurfiau yn greadigol wrth ysgrifennu, gan addasu at y gynulleidfa. Byddant yn defnyddio eu siarad i gynllunio a threfnu eu hysgrifennu, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa, myfyrio ynghylch eu gwaith a'i wella.

# Deilliannau Datblygiad Mathemategol

## Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dewis gwrthrychau y mae modd eu cyfrif, a siapiau a defnyddiau cyffyrddadwy, syml. Byddant yn gallu cynnal patrwm clapio syml iawn.

## Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dynwared oedolyn yn cyfrif ac yn adnabod gwrthrychau cyfarwydd ac yn gallu eu dangos. Byddant yn gallu rhoi siapiau 2D yn eu lle a gallant ailadrodd patrwm clapio syml iawn. Byddant yn gwrando ar rigymau, caneuon a storïau rhif cyfarwydd a byddant yn gallu dweud neu ddangos o leiaf un rhif. Byddant yn ymchwilio i'r hyn sy'n gwneud dau wrthrych yn wahanol.

## Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn gallu cyfrif neu ddangos dau wrthrych gyda chefnogaeth ac yn gwneud y cysylltiad rhwng 1 a 2 â gweithgareddau rhif. Efallai y byddant yn archwilio siapiau rhif cyffyrddadwy ac yn gofyn am 'fwy' wrth sôn am eu dymuniadau personol. Byddant yn archwilio siapiau 2D a 3D wrth chwarae a gallant gopïo patrwm clywedol syml. Byddant yn gwrando ar rigymau, caneuon a storïau rhif cyfarwydd a byddant yn gallu dweud neu ddangos mwy nag un rhif. Byddant yn gallu rhagweld digwyddiad rheolaidd ar sail yr hyn y mae oedolyn yn ei wneud. Byddant yn dechrau deall iaith maint a gallant ddod o hyd i'r gwrthrych 'mawr'. Byddant yn gallu dod o hyd i ddarnau arian o gasgliad cyfyngedig ei faint ac yn gallu dod o hyd i wrthrych pan fydd oedolyn yn gofyn iddynt wneud hynny. Byddant yn dynwared symudiadau syml pan fyddant yn cael eu harddangos.

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Gyda chefnogaeth, gall y plant adrodd neu ddangos y rhifau o 1 i 3. Byddant yn defnyddio gohebiaeth un i un i gyfrif neu ddangos hyd at dri gwrthrych a byddant yn adnabod y rhifau o 0 i 3 ac yn dechrau gwneud marciau i gynrychioli rhifau. Byddant yn adnabod 'mwy' a 'llai' wrth chwarae. Byddant yn defnyddio iaith bob dydd i gymharu meintiau gwrthrychau a disgrifio tymheredd a byddant yn archwilio siapiau 2D a 3D rheolaidd wrth chwarae. Byddant yn dechrau dangos eu bod yn cydnabod patrymau yn eu hamgylchedd. Byddant yn defnyddio iaith bob dydd i gymharu meintiau gwrthrychau ac yn dod o hyd i ddarnau arian tebyg pan fydd oedolyn yn gofyn iddynt wneud hynny. Byddant yn deall geirfa syml sy'n gysylltiedig ag amser. Byddant yn dod o hyd i wrthrychau tebyg pan fo oedolyn yn gofyn iddynt wneud hynny. Byddant yn dilyn cyfarwyddiadau un cam ar gyfer symudiadau syml.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn adrodd y rhifau i fyny i 10, ymlaen ac am yn ôl, gan ddefnyddio caneuon a rhigymau a byddant yn gallu adnabod a chymharu y rhifau hyd at 5 a'u gosod yn eu trefn. Byddant yn defnyddio gohebiaeth un i un i gyfrif hyd at bum gwrthrych a byddant yn gwneud marciau i gynrychioli'r rhifau yn eu chwarae ac i wneud cofnod o gasgliadau. Byddant yn gallu deall a defnyddio'r cysyniad o 'un yn fwy' neu 'un yn llai' wrth chwarae a byddant yn dechrau gwneud amcangyfrifon synhwyrol o hyd at bum gwrthrych. Byddant yn cymharu a didoli dau wrthrych, a'u gosod yn eu trefn, drwy ddulliau arsylwi uniongyrchol a byddant yn defnyddio geiriau sy'n disgrifio tymheredd yn ystod gweithgareddau bob dydd. Byddant yn gallu rhagweld digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag elfennau o'r dydd ac yn dechrau defnyddio geiriau syml sy'n gysylltiedig ag amser. Byddant yn adnabod ac yn gallu enwi siapiau 2D syml, a byddant yn defnyddio siapiau 2D a 3D ac yn dangos ymwybyddiaeth o arian wrth chwarae. Byddant yn copïo patrymau syml, ar sail weledol a thrwy'r glust, a byddant yn didoli delweddau a lluniau ac yn eu paru drwy adnabod yr hyn sy'n debyg rhyngddynt. Byddant yn dilyn cyfarwyddiadau dau gam ar gyfer symudiadau syml.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn adrodd y rhifau i fyny i 20 ac mewn dilyniannau syml a byddant yn cyfrif hyd at 10 gwrthrych yn ddibynadwy. Byddant yn darllen, ysgrifennu a chymharu rhifau hyd at 10, ac yn eu gosod yn eu trefn, a byddant yn deall mai dim yw ystyr sero. Byddant yn deall symiau tynnu a symiau adio syml iawn ac yn gallu dweud yn y pen faint yw 'un yn fwy' ac 'un yn llai' nag unrhyw rif i fyny i 10. Byddant yn defnyddio darnau 1c, 2c, 5c a 10c i 'dalu' am eitemau. Byddant yn gallu gwneud amcangyfrifon synhwyrol hyd at 10 ac yn deall bod modd gwirio hyn drwy gyfrif. Byddant yn gwneud cymhariaeth uniongyrchol a therminoleg syml wrth fesur ac wrth sôn am y tymheredd a byddant yn deall bod rhaid dechrau o'r un pwynt wrth fesur. Byddant yn defnyddio'r cysyniad o amser yn nhermau digwyddiadau bob dydd ac yn dangos synnwyr o ddeall faint o amser y mae'n ei gymryd i gyflawni gwahanol bethau. Byddant yn adnabod siapiau 2D a 3D syml, gan eu disgrifio mewn iaith syml a'u defnyddio wrth chwarae. Byddant yn adnabod ac yn ailadrodd patrymau i fyny i dri, gan ddefnyddio'r llygad a'r glust. Byddant yn didoli ac yn dosbarthu eitemau gan ddefnyddio un maen prawf ac yn gwneud cofnod o gasgliadau gan ddefnyddio marciau, rhifau neu luniau. Byddant yn symud i'r cyfeiriad y gofynnir iddynt.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn adrodd rhifau mewn dilyniannau syml i fyny i 100, gan gynnwys dechrau ar gwahanol bwyntiau a chymharu rhifau hyd at 20 a'u rhoi yn eu trefn. Byddant yn cyfrif hyd at 20 gwrthrych, gan ddefnyddio grwpiau bach o bryd i'w gilydd. Byddant yn darllen ac ysgrifennu'r rhifau i fyny i 20. Byddant yn deall sut i rannu rhifau o dan 20 yn ddegau ac unedau, ac yn disgrifio sut mae gwneud hynny. Byddant yn gallu galw i gof haneri a dyblau rhifau i fyny i 10 a byddant yn adnabod yr odrifau a'r eilrifau i fyny i 20, ac yn eu deall. Byddant yn gallu gwneud symiau tynnu ac adio syml gan ddefnyddio eu hoff strategaeth a byddant yn gallu dweud yn y pen faint yw 'un yn fwy' ac 'un yn llai' nag unrhyw rif i fyny i 20. Byddant yn gallu gwneud amcangyfrifon synhwyrol o grwpiau mwy o faint o wrthrychau, ac yn defnyddio amcangyfrifon ac yn gwirio cyfrifiadau a mesuriadau. Byddant yn 'talu' am eitemau hyd at 20c ac yn cyfrif y cyfanswm a rhoi newid o 10c. Byddant yn defnyddio unedau ansafonol wrth fesur ac yn defnyddio geiriau disgrifiadol wrth ddisgrifio'r tymheredd. Byddant yn defnyddio'r cysyniad o amser yn eu gweithgareddau dyddiol ac wythnosol ac yn defnyddio unedau amser safonol i ddarllen yr oriau ar gloc. Byddant yn dod o hyd i haneri mewn sefyllfaoedd ymarferol ac yn adnabod siapiau 2D a 3D rheolaidd cyffredin ac yn disgrifio sut y byddant yn ffitio at ei gilydd wrth chwarae, ac yn arbrofi â hyn. Byddant yn copïo, disgrifio ac yn ymestyn patrymau gan gynnwys siâp a rhif. Byddant yn gallu didoli neu baru yn unol â mwy nag un maen prawf. Byddant yn casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu ddidoli a byddant yn cynrychioli'r cyfan mewn lluniau, gwrthrychau, eitemau neu restri a thablau. Byddant yn gallu gwneud hanner troeon a throeon cyfan.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn adrodd rhifau mewn dilyniannau syml y tu hwnt i 100, gan gynnwys dechrau ar gwahanol bwyntiau a chymharu rhifau dau ddigid a'u gosod yn eu trefn. Byddant yn cyfrif setiau mwy o faint o wrthrychau yn ddibynadwy gan eu rannu'n grwpiau. Byddant yn darllen ac yn ysgrifennu rhifau i fyny i 100 ac yn deall ac yn egluro mai safle'r digid sy'n pennu gwerth i fyny i 100. Byddant yn rhannu rhifau dau ddigid ac yn gwybod gwerth pob digid. Byddant yn galw i gof dyblau o'r rhifau i fyny i 20 ac yn adnabod a deall odrifau ac eilrifau i fyny i 100. Byddant yn gallu gwneud symiau adio a thynnu mwy anodd gan ddefnyddio eu hoff strategaeth ac yn dweud yn y pen faint yw '10 yn fwy' neu '20 yn fwy' nag unrhyw rif i fyny i 100. Byddant yn 'talu' am eitemau hyd at £1 ac yn cyfrifo'r cyfanswm ac yn rhoi newid o luosrifau 10c. Byddant yn dechrau deall y cysylltiad rhwng lluosi a rhannu, a byddant yn defnyddio tablau lluosi 2, 5 a 10 i ddatrys problemau. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau amcangyfrif a gwirio sy'n briodol i'r cyfrifiadau a'r mesuriadau. Byddant yn defnyddio unedau safonol i fesur ac yn dangos ymwybyddiaeth o wahanol unedau mesur ac yn gallu cymharu'r tymheredd o ddydd i ddydd gan ddefnyddio thermomedr. Byddant yn defnyddio unedau amser safonol i ddarllen yr oriau a'r munudau ar gloc. Byddant yn dod o hyd i haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol. Byddant yn adnabod nodweddion siapiau 2D a 3D rheolaidd ac afreolaidd, ac yn gallu eu henwi a'u disgrifio, a byddant yn eu defnyddio mewn ffyrdd fwyfwy cymhleth neu gywir wrth chwarae. Byddant yn adnabod patrymau mewn gwrthrychau mathemategol, ac yn gallu eu gosod yn eu trefn, a'u trafod. Byddant yn didoli ac yn dosbarthu gan ddefnyddio mwy na dau faen prawf ac yn casglu ac yn cofnodi data o amrywiol ffynonellau, ac yn adnabod hanner troeon a chwarter troeon a bod chwarter tro yn ongl sgwâr.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn adrodd rhifau mewn dilyniannau sy'n llai rhagweladwy i fyny i 1 000, gan gynnwys dechrau ar gwahanol bwyntiau. Byddant yn darllen ac yn ysgrifennu'r rhifau i fyny i 1 000 ac yn deall ac yn egluro mai safle'r digid sy'n pennu gwerth i fyny i 1 000, ac yn gwneud amcangyfrifon yn seiliedig ar werth lle. Byddant yn cyfrif setiau mawr o wrthrychau gan ddefnyddio ystod o strategaethau. Byddant yn gwneud symiau adio a thynnu mwy anodd gan ddefnyddio eu hoff strategaethau, sy'n cynnwys strategaethau'r pen. Byddant yn defnyddio tablau lluosi 2, 3, 4, 5 a 10 i ddatrys problemau lluosi a rhannu, ac yn dechrau deall symiau sy'n weddill. Byddant yn defnyddio strategaethau amcangyfrif a gwirio mwy coeth gan gynnwys adio/tynnu gwrthdro a haneru/dyblu, deall rhai unedau mawr a bach mewn perthynas â'i gilydd a defnyddio rhifau negyddol yng nghyd-destun tymheredd. Byddant yn 'talu' am eitemau hyd at £2 ac yn cyfrifo'r newid. Byddant yn gallu cymharu eitemau gwerth hyd at £10 a'u gosod yn eu trefn. Byddant yn defnyddio unedau amser safonol i ddarllen oriau a munudau ar gloc ac yn gallu cyfrifo cyfnodau o amser bob dydd yn syml. Byddant yn dod o hyd i haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol, yn galw i gof haneri o rifau ac yn deall sut i gyfuno ffracsiynau syml. Byddant yn adnabod siapiau 2D a 3D rheolaidd ac afreolaidd ac yn eu dosbarthu. Byddant yn ymchwilio i batrymau rhif, gan gynnwys adio a thynnu, ac yn eu hymestyn. Byddant yn didoli ac yn dosbarthu gan ddefnyddio mwy na dau faen prawf, gan egluro eu rhesymeg mewn iaith fathemategol a drwy ddefnyddio diagramau didoli. Byddant yn cynrychioli data gan ddefnyddio dulliau mwy cymhleth, ac yn tynnu ac yn dadansoddi gwybodaeth o gynrychioliadau data. Byddant yn gwneud y cysylltiad rhwng onglau sgwâr â throeon cyfan, hanner troeon a chwarter troeon.

# Deilliannau Datblygu'r Gymraeg

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn gallu deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Byddant yn ailadrodd rhai geiriau ac ymadroddion cyfarwydd. Byddant yn fwyfwy awyddus i ddechrau ymuno ag eraill mewn caneuon actol a rhigymau lle defnyddir y bysedd. Bydd y plant yn dechrau dilyn storïau a ddarllenir iddynt a byddant yn dechrau ymateb yn briodol ar lafar neu'n ddieiriau.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn sgwrsio'n syml gan ddefnyddio geiriau Cymraeg yn lle geiriau Saesneg weithiau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Byddant yn dilyn cyfarwyddiadau syml. Byddant yn fwyfwy awyddus i ymuno ag eraill mewn caneuon a hwiangerddi. Byddant yn edrych ar lyfrau gydag oedolyn neu heb oedolyn a byddant yn dangos diddordeb yn eu cynnwys.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dechrau mynegi eu hunain drwy gyfrwng gweithgareddau chwarae rôl. Byddant yn ymateb i gyfarwyddiadau, cwestiynau ac ysgogiadau eraill a fynegir yn glir gan lais cyfarwydd. Gyda chymorth, byddant yn ailadrodd caneuon a rhigymau neu'n eu dysgu ar y cof. Byddant yn gwrando ar storïau, caneuon a rhigymau a byddant yn mynegi peth mwynhad a diddordeb. Byddant yn dechrau deall bod gwyddor yn sail i waith darllen ac ysgrifennu a bod synau ac ystyr yn perthyn i symbolau ysgrifenedig.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dangos dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion a fynegir yn glir gan lais cyfarwydd, a byddant yn ymateb drwy gyfrwng ymadroddion llafar byr. Byddant yn siarad gan ynganu a goslefu'n glir wrth efelychu a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml. Gyda chymorth, byddant yn mynegi gwybodaeth syml, ac yn gofyn ac yn ateb cwestiynau. Byddant yn adnabod geiriau cyfarwydd. Byddant yn cysylltu ffurf ysgrifenedig geiriau â'u sŵn wrth ddarllen geiriau unigol. Byddant yn dangos dealltwriaeth o eiriau unigol drwy gyfrwng ymatebion dieiriau. Bydd arnynt angen cefnogaeth/cymorth weithiau. Byddant yn cyfathrebu drwy gopïo'n gywir ac ysgrifennu geiriau a rhai ymadroddion syml a chyfarwydd oddi ar eu cof.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dangos dealltwriaeth o eitemau byr a fynegir gan lais cyfarwydd drwy ymateb yn ddieiriau neu drwy gyfrwng ymadroddion llafar byr. Byddant yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, a byddant yn ymateb i ystod o ysgogiadau. Byddant yn siarad gan ynganu a goslefu'n glir ac amrywio eu geirfa a'u patrymau i ryw raddau. Byddant yn adnabod geiriau ac ymadroddion syml a chyfarwydd y mae ganddynt brofiad ohonynt, a byddant yn dechrau dangos diddordeb mewn deunydd ysgrifenedig drwy ddarllen rhai darnau syml. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r hyn y byddant wedi'i ddarllen drwy ymateb i'r cynnwys ar lafar neu'n ddieiriau. Byddant yn cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau weithiau hefyd er mwyn mynegi gwybodaeth ffeithiol a phersonol, gan ddefnyddio patrymau cyfarwydd. Caiff geiriau syml eu sillafu'n gywir fel rheol.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dangos dealltwriaeth o gyfres o eitemau byr a fynegir gan lais cyfarwydd, drwy ymateb ar lafar neu'n ddieiriau. Byddant yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn glir, a byddant yn gwneud rhai datganiadau o'u gwirfodd. Byddant yn mynegi barn yn syml. Byddant yn siarad gan ynganu a goslefu'n glir, a byddant yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau sy'n gywir fel rheol. Byddant yn darllen testunau syml yn gymharol glir. Byddant yn deall testunau sy'n cynnwys ystod gynyddol o eiriau, ymadroddion a darnau byr mewn cyd-destunau cyfarwydd, a byddant yn ymateb yn syml iddynt. Byddant yn ymateb i farddoniaeth, storïau a deunydd ffeithiol, ac yn mynegi barn yn eu cylch. Byddant yn dechrau darllen yn annibynnol a dewis rhai testunau o'u gwirfodd. Byddant yn ysgrifennu brawddegau byr a syml gan ddefnyddio geirfa a phatrymau addas a chyfarwydd i gyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol syml yn weddol gywir. Caiff geiriau cyfarwydd eu sillafu'n gywir fel rheol, a byddant yn dangos peth ymwybyddiaeth o atalnodi sylfaenol drwy ddefnyddio priflythrennau, atalnodau llawn a marciau cwestiwn â rhywfaint o gysondeb.

# Deilliannau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn archwilio gwrthrychau a defnyddiau mewn amgylcheddau agos iawn a chyfarwydd. Byddant yn aml yn gofyn y cwestiwn 'pam?' ac yn defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i gyfleu eu harsylwadau. Byddant yn adnabod eu hunain a phobl gyfarwydd mewn lluniau/storïau, a byddant yn dangos gwybodaeth am drefniadau arferol pob dydd. O gael anogaeth gan oedolion, byddant yn dechrau siarad am yr hyn y byddant yn ei greu, megis modelau a lluniau.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dechrau gosod gwrthrychau mewn categorïau syml. Byddant yn trin ystod o offer ac yn archwilio'r defnydd a wneir ohonynt. Byddant yn gallu gwneud rhai dewisiadau ynghylch defnyddiau/offer er mwyn cwblhau tasg benodol. Byddant yn ymateb i gwestiynau penagored am eu profiadau a byddant yn cynnig eu syniadau eu hunain gan ddefnyddio ymadroddion byr neu ddulliau eraill o gyfathrebu. Byddant yn dechrau cysylltu gweithgareddau penodol ag adegau arbennig o'r dydd/wythnos, a byddant yn dangos peth dealltwriaeth o'r presennol a'r gorffennol. Byddant yn meithrin hyder yn eu gallu i ddod o hyd i'w ffordd mewn amgylchedd cyfarwydd a byddant yn datblygu gwybodaeth am rolau pobl gyfarwydd. Byddant yn tyfu'n fwy hyderus wrth siarad am eu gwaith.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn didoli gwrthrychau a defnyddiau yn ôl meini prawf penodol. Byddant yn cyfleu eu gwybodaeth gynyddol am eitemau a ddefnyddir bob dydd. Byddant yn dechrau cynnig syniadau'n annibynnol ynghylch ble y gellir dod o hyd i wybodaeth. Byddant yn dechrau cofnodi eu harsylwadau gan ddefnyddio symbolau/lluniau/arwyddion neu ymadroddion syml. Drwy ymholi, byddant yn gallu adnabod newidiadau yn eu hamgylchedd/mewn defnyddiau/mewn nodweddion naturiol. Byddant yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml. Byddant yn dechrau deall treigl amser, gan gofio digwyddiadau pwysig yn y gorffennol a rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Byddant yn gallu rhoi digwyddiadau yn eu trefn. Byddant yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol a byddant yn rhagweld drwy fyfyrio ynghylch profiadau blaenorol.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch nodweddion sylfaenol eu hardal leol, gwrthrychau, defnyddiau, pethau byw a digwyddiadau yn y presennol a'r gorffennol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Byddant yn gwneud arsylwadau, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, ac yn dod o hyd i atebion gan ddefnyddio ffynonellau a deunyddiau dysgu. Byddant yn dechrau adnabod yr hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd. Byddant yn adnabod ac yn grwpio eitemau o wybodaeth. Byddant yn disgrifio eu lleoliad gan ddefnyddio termau cyffredin, a byddant yn tynnu llun map syml ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Byddant yn adnabod nodweddion lleoedd penodol a'r modd y mae rhai ohonynt yn newid, ac yn mynegi eu barn yn eu cylch. Byddant yn mynegi eu barn am nodweddion lleoedd. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y presennol a'r gorffennol yn eu bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill. Byddant yn dangos eu hymdeimlad cynyddol o gronoleg drwy ddefnyddio termau cyffredin sy'n ymwneud â threigl amser a rhoi rhai digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn. Byddant yn gwybod rhannau o storïau am y gorffennol ac yn eu hailadrodd. Byddant yn dechrau adnabod portreadau o'r gorffennol. Byddant yn gwrando ar syniadau gwyddonol ac yn ymateb yn briodol iddynt. Byddant yn adnabod ac yn enwi ystod o anifeiliaid, gwrthrychau, defnyddiau, ffynonellau goleuni a ffynonellau sŵn cyffredin.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cyfleu eu harsylwadau a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch gwahanol ardaloedd drwy ddisgrifio nodweddion naturiol a nodweddion a grëwyd gan ddyn, gan adnabod sut y mae rhai ohonynt yn newid a chydnabod bod gweithrediadau pobl yn effeithio ar yr amgylchedd. Byddant yn dod o hyd i wybodaeth ar fap, yn tynnu llun mapiau syml â symbolau, a byddant yn ymwybodol o'r cyfeiriadau ar gwmpawd. Byddant yn cyfleu eu hymdeimlad cynyddol o gronoleg drwy ddefnyddio termau sy'n ymwneud â threigl amser, rhoi digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn, a gwahaniaethu rhwng agweddau ar eu bywydau eu hunain a chyfnodau yn y gorffennol. Byddant yn dangos gwybodaeth o agweddau ar y gorffennol a rhai o'r prif ddigwyddiadau a'r prif bobl y byddant wedi'u hastudio. Byddant yn dechrau sylweddoli bod rhesymau i egluro pam y gweithredodd pobl fel y gwnaethant yn y gorffennol, a bod modd portreadu'r gorffennol mewn gwahanol ffyrdd. Byddant yn dechrau dewis, trefnu a chyfleu eitemau o wybodaeth am y gorffennol. Byddant yn defnyddio offer syml i wneud digon o arsylwadau i'w galluogi i ddidoli, grwpio a chymharu gwrthrychau, defnyddiau, pethau byw a digwyddiadau. Byddant yn disgrifio'r sail ar gyfer y grwpio gan ddefnyddio gwahaniaethau syml rhwng pethau byw, gwrthrychau, defnyddiau a ffenomena ffisegol. Byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, yn gwneud arsylwadau, yn casglu gwybodaeth ac yn dod o hyd i atebion gan ddefnyddio'r ffynonellau/deunyddiau dysgu a ddarperir. Byddant yn cyfleu gwybodaeth am y camau y mae angen eu cymryd i gynnal eu hymchwiliadau. Byddant yn defnyddio eu profiadau i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Byddant yn myfyrio ac yn gwerthuso drwy ddisgrifio eu gwaith yn fanwl gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol briodol. Byddant yn cynnig esboniadau ynghylch pam y gweithiodd neu na weithiodd rhywbeth.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cyfleu eu harsylwadau a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch gwahanol ardaloedd drwy gymharu a thrwy gynnig rhai esboniadau ynghylch y nodweddion naturiol a geir ynddynt a'r nodweddion sydd ynddynt a grëwyd gan ddyn. Byddant yn sylweddoli bod pobl yn effeithio ar eu hamgylchedd mewn modd cadarnhaol a negyddol. Byddant yn defnyddio globau a mapiau i ddod o hyd i wybodaeth am leoedd. Byddant yn tynnu llun mapiau gan ddefnyddio allwedd a symbolau, a byddant yn deall cyfarwyddiadau. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth o gronoleg drwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o'r ffaith bod modd rhannu'r gorffennol yn wahanol gyfnodau a thrwy eu hadnabyddiaeth o ychydig o'r tebygrwydd a rhai o'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y cyfnodau hynny. Byddant yn dangos gwybodaeth o rai o'r prif ddigwyddiadau, y prif bobl a'r prif newidiadau a astudiwyd. Byddant yn dechrau awgrymu rhai rhesymau dros y prif ddigwyddiadau a'r prif newidiadau, a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â hwy. Byddant yn adnabod rhai o'r gwahanol ffyrdd a ddefnyddir i bortreadu'r gorffennol. Byddant yn defnyddio eu profiadau pob dydd i egluro'r gwahaniaethau rhwng pethau byw, defnyddiau a ffenomena ffisegol, a'r newidiadau sy'n digwydd iddynt. Gyda chymorth, byddant yn cysylltu eu gwaith dysgu â sefyllfaoedd cyfarwydd. Byddant yn siarad am eu syniadau a byddant yn gwneud rhagfynegiadau syml gan ddefnyddio eu profiad pob dydd. Gyda chymorth, byddant yn cynllunio'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i wneud eu hymholiadau. Lle bo hynny'n briodol, byddant yn cytuno ar rai meini prawf syml ar gyfer llwyddiant. Byddant yn gofyn ac yn ateb ystod o gwestiynau, yn arsylwi, yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac yn dod o hyd i atebion i'w hymchwiliadau. Byddant yn mynegi eu barn ac yn cynnig rhesymau i gefnogi'r farn honno, a byddant yn cydnabod bod gan bobl safbwyntiau gwahanol. Byddant yn cynnig esboniad syml ynghylch eu casgliadau, sydd wedi'i seilio ar eu profiadau pob dydd, a byddant yn awgrymu beth y gallent fod wedi'i wneud yn wahanol er mwyn gwella eu casgliadau. Byddant yn adnabod yr hyn a weithiodd, yr hyn a oedd yn gwneud synnwyr, yr hyn na weithiodd a'r hyn nad oedd yn gwneud synnwyr, a'r rhesymau dros hynny.

# Deilliannau Datblygiad Corfforol

## Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn gallu cropian neu symud o gwmpas fel arall yn dda ac yn gallu tynnu eu hunain i fyny i sefyll drwy ddefnyddio dodrefn. Byddant yn gollwng eitemau yn fwriadol ac yn gallu trosglwyddo eitem o'r naill law i'r llall a defnyddio'r ddwy law i archwilio eitemau.

## Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn cerdded yn alluog heb gymorth. Byddant yn gallu cydio mewn creon neu bensil yn eu dwrn a sgriblo gan ddefnyddio symudiadau ar hap. Byddant yn defnyddio'r ddwy law gyda'i gilydd i archwilio gwrthrychau a'u tynnu yn syml.

## Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn rhedeg mewn llinell syth ac yn gallu plygu neu gyrcydu i godi eitem a sefyll unwaith eto heb syrthio. Byddant yn cydio mewn creon neu bensil yn eu dwrn wrth wneud marciau a byddant yn sgriblo'n annibynnol, gyda rhywfaint o reolaeth. Byddant yn defnyddio'r ddwy law i dynnu defnyddiau'n rhydd, eu rhoi at ei gilydd, eu trin a'u trafod a'u harchwilio, gan dynnu, ymestyn a gwasgu.

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau corfforol mawr. Byddant yn gallu ymdopi â rhwystrau mawr. Byddant yn gallu neidio a glanio yn ddiogel, ac yn taflu a derbyn gwrthrych. Byddant yn perfformio mwy nag un weithred ac yn symud mewn gwahanol ffyrdd. Byddant yn adnabod ac yn defnyddio gwahanol ddarnau o offer wrth chwarae gydag eraill. Byddant yn gallu trin ac archwilio defnyddiau drwy eu tynnu, eu hymestyn a'u gwasgu. Byddant yn gallu adeiladu tŵr sy'n cynnwys chwech o flociau.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud. Byddant yn chwarae ar eu pen eu hunain, gyda phartner neu mewn grŵp bach. Byddant yn gwrando ar gyfarwyddiadau, a gallant ddechrau a rhoi'r gorau i wneud rhywbeth pan gânt orchymyn i wneud hynny. Byddant yn dilyn rheolau syml sy'n gysylltiedig â gêm. Byddant yn chwarae â gwahanol ddarnau o offer ac yn defnyddio cyfarpar isel wrth ymarfer eu sgiliau teithio, neidio a glanio. Byddant yn gallu dringo dros rwystrau a phedlo ar feiciau tair olwyn, beiciau cyffredin a cheir sy'n briodol o ran maint. Byddant yn gallu sefyll ar un droed am ennyd. Byddant yn dechrau torri defnydd â siswrn. Byddant yn gallu adeiladu tŵr sy'n cynnwys naw neu ddeg o frics, a byddant yn dechrau dal creon/pensil mawr â'u bysedd a'u bawd.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dangos sgiliau rheoli a chydsymud cynyddol mewn amrywiaeth o weithgareddau. Byddant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb iddynt. Byddant yn archwilio tasgau syml gan ddefnyddio amrywiaeth o offer am gyfnodau hwy. Byddant yn gweithio'n ddiogel mewn gofod. Byddant yn perfformio sgiliau corfforol syml ac yn gwella'r hyn y maent yn ei wneud. Byddant yn gallu neidio i lawr o wrthrychau isel, a gallant daflu a derbyn gwrthrych dros bellter byr. Byddant yn eithaf cymwys o safbwynt rheoli beiciau a cheir a rhedeg o gwmpas rhwystrau. Byddant yn gallu torri papur yn ddau ddarn gan ddefnyddio siswrn, a gallant linynnu gleiniau ar lasyn. Byddant yn gallu trin adnoddau priodol a'u ffitio gyda'i gilydd. Byddant yn gafael mewn pensil/creon yn aeddfed gan ddangos rheolaeth dda. Byddant yn gallu tynnu llun person sydd â phen, coesau a chorff.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn gallu sefyll a rhedeg ar flaenau eu traed. Byddant yn gallu neidio tuag yn ôl a hercian tuag ymlaen ar un droed. Byddant yn gallu cerdded a chicio pêl neu rhedeg a chicio pêl. Byddant yn chwarae ac yn symud mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddatblygu'r modd y byddant yn perfformio sgiliau syml, a hynny ar eu pen eu hunain i ddechrau ac yna gyda phartner. Byddant yn defnyddio'r gweithrediadau sylfaenol sy'n ymwneud â theithio, neidio a glanio, sicrhau cydbwysedd a sefyll yn llonydd yn eu gweithgareddau chwarae a'u gweithgareddau gymnasteg. Byddant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn barod iddynt. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r pellter y dylid ei adael rhyngddynt hwy a phobl eraill er mwyn gweithio'n ddiogel mewn gwahanol amgylcheddau. Byddant yn gwella'r hyn y byddant yn ei wneud, a hynny weithiau drwy wylio eraill a'u helpu i wella. Byddant yn sylweddoli sut y mae eu hanadl yn newid a sut y byddant yn ymddangos ac yn teimlo wrth wneud ymarfer corff. Byddant yn gallu clymu cwlwm unigol ac yn gallu torri siapiau syml gan ddefnyddio siswrn. Byddant yn gallu creu modelau gan ddefnyddio cynlluniau parod. Bydd ganddynt reolaeth dda ar bensiliau, creonau a brwshis, a byddant yn tynnu llun person sydd â phen, coesau, corff, llygaid, trwyn a cheg.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn tyfu'n gryfach ac yn fwy ystwyth. Byddant yn gallu neidio oddi ar gyfarpar yn hyderus a gallant fynd ar feic dwy olwyn. Byddant yn gallu bownsio pêl ag un llaw a gallant ddal pêl â dwy law. Byddant yn archwilio gwahanol weithgareddau ac yn symud â rheolaeth gorfforol a hyder cynyddol. Byddant yn ymarfer er mwyn gwella eu sgiliau a byddant yn dechrau cysylltu gweithrediadau, megis neidio a glanio neu ddal a thaflu. Byddant yn gweithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer a chyfarpar, a byddant yn cymryd peth cyfrifoldeb am osod yr offer a'r cyfarpar yn eu lle a'u rhoi i gadw. Byddant yn siarad am yr hyn y byddant hwy ac y mae eraill wedi'i wneud, a byddant yn cynnig awgrymiadau syml ynghylch sut y gellir gwella perfformiad. Byddant yn adnabod ac yn disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud gwahanol fathau o weithgarwch. Byddant yn gallu torri lluniau a siapiau anodd allan. Bydd y modd y byddant yn dal offer ysgrifennu yn debyg i'r modd y byddai oedolyn yn gwneud hynny.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio ac yn datblygu eu sgiliau gan ddangos gwell rheolaeth a sgiliau cydsymud. Yn ystod symudiadau gymnasteg, byddant yn dangos gwell tyndra yn eu cyhyrau ac yn creu siapiau cliriach â'u cyrff, a bydd eu symudiadau cysylltiedig yn dechrau dangos peth rhwyddineb. Byddant yn cydweithio i ddatrys problemau wrth weithio gydag eraill. Byddant yn adnabod y gwahanol egwyddorion sylfaenol sy'n sail i weithgareddau cystadleuol ac anturus. Byddant yn cynnal gweithgaredd dros gyfnodau priodol. Byddant yn gwylio perfformiad ei gilydd ac yn dweud beth sy'n dda amdano a'r hyn a allai fod yn well, gan ddefnyddio geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â'u gweithgaredd. Byddant yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain, a byddant yn dechrau gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwella a gwneud cynnydd. Byddant yn disgrifio'r modd y mae ymarfer corff yn effeithio ar y corff a byddant yn cynnig rhesymau i egluro pam y mae gweithgarwch corfforol dyddiol yn dda iddynt. Byddant yn fwy medrus o safbwynt eu sgiliau ysgrifennu, a byddant yn tynnu llun pobl sydd â phen a chorff (coesau, breichiau, dwylo, bysedd).

# Deilliannau Datblygiad Creadigol

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn mwynhau trin ac archwilio defnyddiau/adnoddau ac ymchwilio iddynt. Byddant yn gallu dangos peth rheolaeth wrth wneud marciau a phatrymau gan ddefnyddio eu bysedd ac offer. Byddant yn archwilio ystod o ffynonellau sŵn ac yn arbrofi â chynhyrchu synau, gan gynnwys ysgwyd, taro a chrafu. Byddant yn dechrau adnabod cerddoriaeth gyfarwydd a phatrymau syml, a byddant yn ymateb drwy ymuno neu symud â'r gerddoriaeth, gan efelychu symudiadau, synau a geiriau yn fras. Byddant yn dechrau defnyddio symudiadau cyferbyniol sy'n ymwneud â theithio, neidio, glanio ac aros yn llonydd wrth iddynt symud yn ddychmygus.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn arbrofi ag ystod o ddefnyddiau/adnoddau, yn ymchwilio iddynt ac yn eu harchwilio. Byddant yn gallu cynhyrchu marciau, a byddant yn dechrau defnyddio llinellau a siapiau i greu symbolau a delweddau. Byddant yn cydosod defnyddiau i greu arteffactau y mae ystyr yn perthyn iddynt. Byddant yn ymateb i gwestiynau penagored am eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Byddant yn efelychu rhythmau a phatrymau cerddorol syml, gan greu rhythmau a phatrymau tebyg yn fras o safbwynt deinamig neu elfennau cerddorol eraill. Byddant yn archwilio ystod o ffynonellau sŵn ac yn arbrofi â chynhyrchu sŵn o wahanol ansawdd. Byddant yn adnabod synau cyfarwydd drwy wrando ar gerddoriaeth a chreu cerddoriaeth. Byddant yn dehongli gwahanol ysgogiadau megis cerddoriaeth, geiriau a lluniau drwy symud mewn gwahanol ffyrdd, creu siapiau amrywiol â'u cyrff a newid cyfeiriad.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn ehangu eu gwybodaeth am nodweddion ystod o ddefnyddiau/adnoddau drwy archwilio ac ymchwilio. Byddant yn gallu defnyddio ystod o offer â chywirdeb cynyddol, ac yn gallu creu delweddau a symbolau o blith ystod o linellau, marciau a siapiau. Byddant yn cydosod ac yn cyfuno deunyddiau i greu arteffactau ystyrlon. Byddant yn mynegi barn am eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a byddant yn dechrau cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol drwy fyfyrio ynghylch gwaith dysgu blaenorol. Byddant yn cydweithio ag eraill yn gynyddol wrth weithio. Byddant yn perfformio caneuon actol a hwiangerddi syml gydag eraill, gan greu perfformiadau tebyg yn fras o safbwynt deinamig neu elfennau cerddorol eraill. Byddant yn cyfrannu at storïau sŵn drwy ddewis y synau y bwriedir eu defnyddio. Byddant yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o rai elfennau cerddorol drwy greu a gwrando ar gerddoriaeth. Byddant yn mynegi eu syniadau a'u hwyliau, megis hapusrwydd neu dristwch, drwy gyfrwng symudiadau syml y gallant eu hailadrodd, gan greu siapiau amrywiol â'u cyrff a dangos newidiadau o ran lefel a chyfeiriad.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio defnyddiau/adnoddau ac offer i greu delweddau ac arteffactau creadigol sy'n arddangos sgil cynyddol, gan arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus er mwyn cofnodi'r syniadau a'r teimladau sy'n deillio o'u harsylwadau, eu profiad a'u dychymyg. Byddant yn dechrau ffurfio cysylltiadau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a defnyddio sgiliau cyfathrebu sylfaenol i gyfleu eu dealltwriaeth. Byddant yn canu gan eirio'n glir a pherfformio'n uchel neu'n dawel yn ôl y cyfarwyddyd a gânt. Byddant yn clapio neu'n tapio curiad cyson gan gadw amser ag eraill. Ar ôl archwilio amrywiaeth o ffynonellau sŵn, byddant yn dewis synau addas wrth ymateb i ysgogiad penodol. Byddant yn adnabod synau a cherddoriaeth ac yn ymateb iddynt, a hynny o safbwynt elfennau megis deinamig, cyflymder, hyd a soniaredd. Byddant yn mynegi eu syniadau drwy gyfrwng symudiadau sy'n amrywio o ran siâp, rhythm, a dull teithio, gan ddefnyddio gwahanol rannau o'r corff, cyfnodau o lonyddwch a chyfnodau o gadw cydbwysedd. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r pellter y mae angen ei adael rhyngddynt ac eraill er mwyn symud yn ddiogel â rheolaeth gynyddol.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio ystod o ddefnyddiau ac offer i greu delweddau ac arteffactau, a byddant yn archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd mewn modd ymarferol a dychmygus, gan wneud newidiadau i'w gwaith lle byddant yn credu bod angen gwneud hynny. Byddant yn cofnodi delweddau a syniadau sy'n deillio o arsylwadau, profiad, y cof a'r dychymyg gan ddefnyddio ystod o adnoddau y byddant wedi'u casglu a'u trefnu. Byddant yn adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng eu gwaith ymarferol eu hunain a gwaith ymarferol pobl eraill; byddant yn defnyddio sgiliau cyfathrebu i ddisgrifio'r hyn y byddant yn ei deimlo neu'n ei feddwl am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau hynny. Byddant yn canu caneuon sy'n cynnwys ystod gyfyngedig o nodau, gan gadw mewn tiwn yn gyffredinol. Byddant yn chwarae patrwm syml ar offeryn taro gan gadw amser â churiad cyson. Byddant yn dewis ac yn trefnu synau wrth ymateb i ysgogiad penodol ac yn creu patrymau melodig byr, gan ddangos peth rheolaeth ar elfennau cerddorol. Byddant yn gwahaniaethu'n fras rhwng elfennau cerddorol, a byddant yn defnyddio termau syml i ddisgrifio sut y caiff yr elfennau hynny eu defnyddio at ddibenion mynegiannol. Byddant yn dechrau cysylltu ac ailadrodd patrymau symud syml a gwella eu sgiliau fel bod eu symudiadau'n gliriach o ran siâp. Caiff y syniadau, yr hwyliau a'r teimladau a ddefnyddir yn eu gweithgareddau dawnsio eu cyfleu'n glir i bartner neu grŵp.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio ystod o ddefnyddiau/adnoddau, offer a thechnegau i gyflawni gwahanol ganlyniadau, a byddant yn arbrofi â nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd gan wneud newidiadau addas i'r gwaith lle byddant yn gweld bod angen addasu. Byddant yn dewis ac yn cofnodi'r syniadau a'r teimladau sy'n deillio o'u harsylwadau, eu profiad a'u dychymyg drwy ddarlunio a defnyddio dulliau eraill, gan ddewis o blith ystod o adnoddau y byddant wedi'u casglu a'u trefnu yn sail i'w gwaith. Byddant yn canu caneuon mewn tiwn ac yn rheoli eu hanadlu er mwyn gwella eu perfformiad. Byddant yn chwarae rhan offerynnol gan ddefnyddio ystod gyfyngedig o nodau. Byddant yn gweithio gydag eraill i greu cyfansoddiadau sydd â siâp cerddorol syml, gan adolygu eu syniadau lle bo angen. Byddant yn gwahaniaethu rhwng elfennau cerddorol ac yn trafod pa mor effeithiol y caiff yr elfennau hynny eu defnyddio. Mae eu symudiadau'n dechrau dangos sgiliau cydsymud, rhwyddineb a rheolaeth, a hynny o ganlyniad i well tyndra yn y cyhyrau. Byddant yn ymateb i ysgogiadau amrywiol, gan gynnwys partner, a byddant yn cynllunio patrymau symud syml. Byddant yn ailadrodd, â pheth cywirdeb, symudiadau patrymog sydd i'w gweld mewn dawnsiau traddodiadol.

# Atodiad A: Deilliannau Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (gwreiddiol 2008)

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn 'siarad' â'u hunain a byddant yn gallu deall llawer mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Byddant yn ailadrodd enwau gwrthrychau cyfarwydd. Byddant yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn dechrau mynegi eu hunain drwy gyfrwng gweithgareddau chwarae rôl. Byddant yn fwyfwy awyddus i ymuno ag eraill mewn caneuon a hwiangerddi, yn enwedig caneuon actol a rhigymau lle defnyddir y bysedd. Byddant yn dechrau dilyn y storïau a ddarllenir iddynt a byddant yn dechrau ymateb iddynt yn briodol. Byddant yn dechrau 'tynnu lluniau' gan ddefnyddio'r llaw sydd orau ganddynt ac arbrofi â gwneud marciau.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn sgwrsio'n syml gan hepgor cysyllteiriau o bryd i'w gilydd a gofyn cwestiynau'n aml, *e.e. 'pam?' a 'sut?'*. Byddant yn ymateb i gyfarwyddiadau, cwestiynau ac ysgogiadau eraill. Byddant yn gwrando ar storïau, caneuon a rhigymau a byddant yn mynegi peth mwynhad a diddordeb. Byddant yn edrych ar lyfrau gydag oedolyn neu heb oedolyn a byddant yn dangos diddordeb yn eu cynnwys. Byddant yn dechrau dilyn storïau drwy edrych ar y lluniau, a byddant yn gwahaniaethu rhwng print a lluniau. Byddant yn rhoi cynnig ar ddefnyddio amrywiaeth o offer i wneud marciau a siapiau ar bapur neu ddefnydd arall priodol.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio geirfa gynyddol wrth siarad. Byddant yn dechrau defnyddio brawddegau llawn. Byddant yn gwrando ar eraill ac yn ymateb yn briodol fel rheol. Gyda chymorth, byddant yn ailadrodd caneuon a rhigymau neu'n eu dysgu ar y cof. Byddant yn ailadrodd storïau cyfarwydd mewn modd syml. Byddant yn trin llyfr fel pe baent yn ei ddarllen a byddant yn siarad am gynnwys y llyfr. Byddant yn dechrau deall bod gwyddor yn sail i waith darllen ac ysgrifennu a bod synau ac ystyr yn perthyn i symbolau ysgrifenedig. Byddant yn dal offer ysgrifennu'n briodol, yn gwahaniaethu rhwng llythrennau ac yn dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i ystod o wrandawyr. Byddant yn dechrau ymestyn eu syniadau neu eu hanesion drwy gynnwys rhai manylion. Byddant yn gwrando ar eraill, gan ymateb yn briodol fel rheol. Byddant yn adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml ac, wrth ddarllen yn uchel, byddant yn defnyddio eu gwybodaeth o lythrennau a'r berthynas rhwng synau a symbolau i ddarllen geiriau a chadarnhau ystyr. Byddant yn ymateb i gerddi, storïau a deunydd ffeithiol, ond bydd arnynt angen cymorth weithiau. Bydd eu gwaith ysgrifenedig yn cyfleu ystyr drwy gyfrwng geiriau ac ymadroddion syml. Yn eu gwaith darllen neu eu gwaith ysgrifenedig, byddant yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r modd y mae brawddegau'n gweithio. Byddant yn ysgrifennu llythrennau sydd wedi'u ffurfio'n glir ac sy'n wynebu'r cyfeiriad cywir fel rheol. Byddant yn dechrau deall y gwahanol ddibenion a swyddogaethau sy'n perthyn i iaith ysgrifenedig.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn siarad yn glir â hyder cynyddol a byddant yn defnyddio geirfa sy'n ehangu. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion y gwrandäwr drwy gynnwys manylion perthnasol. Byddant yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml. Byddant fel rheol yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb i ystod ehangach o ysgogiadau. Byddant yn mabwysiadu geirfa a goslef fwy ffurfiol mewn rhai sefyllfaoedd. Byddant yn dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn perthyn i'r iaith a glywant o'u cwmpas. Byddant yn darllen testunau syml yn gywir ar y cyfan. Byddant yn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau neu syniadau pwysig mewn storïau, cerddi a deunydd ffeithiol, a byddant yn mynegi barn yn eu cylch. Byddant yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a chadarnhau ystyr. Bydd eu gwaith ysgrifenedig yn cyfleu ystyr. Byddant yn defnyddio geirfa briodol a diddorol gan ddangos peth ymwybyddiaeth o'r darllenydd. Bydd syniadau'n cael eu datblygu'n aml ar ffurf dilyniant o frawddegau cysylltiedig, a bydd priflythrennau ac atalnodau llawn yn cael eu defnyddio â rhywfaint o gysondeb. Bydd geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol, ond os byddant wedi'u sillafu'n anghywir byddant yn ddealladwy o safbwynt ffonig. O ran llawysgrifen, bydd llythrennau'n cael eu ffurfio'n gywir a byddant yn gyson o ran maint.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dechrau addasu eu ffordd o siarad i fodloni gofynion y gynulleidfa, gan amrywio eu defnydd o eirfa a lefel y manylder. Byddant yn archwilio ac yn cyfleu syniadau, gan ddangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant mewn ystod o gyd-destunau. Byddant yn dangos eu bod wedi gwrando'n ofalus drwy gynnig sylwadau a gofyn cwestiynau perthnasol. Byddant yn darllen ystod o destunau â chywirdeb, rhuglder a phwyslais cynyddol. Byddant yn darllen yn annibynnol, gan ddefnyddio strategaethau priodol i gadarnhau ystyr. Byddant yn ymateb i destunau ac yn mynegi hoffterau. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau ac yn siarad am fanylion pwysig. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth am yr wyddor i ddod o hyd i lyfrau a gwybodaeth. Bydd eu gwaith ysgrifenedig yn aml yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir. Bydd prif nodweddion gwahanol ffurfiau o ysgrifennu'n cael eu defnyddio'n briodol. Bydd geiriau'n cael eu dewis er mwyn sicrhau amrywiaeth, diddordeb ac effaith. Bydd strwythur gramadegol sylfaenol brawddegau'n gywir fel rheol. Bydd yr atalnodi'n gywir ar y cyfan. Bydd y sillafu'n gywir fel rheol. Byddant yn cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy.

# Atodiad B: Deilliannau Datblygiad Mathemategol (gwreiddiol 2008)

## Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn rhagweld, yn dilyn, yn ymateb ac yn ymuno ag eraill mewn rhigymau, storïau, caneuon, gweithgareddau a gemau cyfarwydd sy'n ymwneud â rhifau. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o weithgareddau rhif; byddant yn adrodd, yn mynegi drwy gyfrwng iaith arwyddion, neu'n dangos un neu ragor o rifau hyd at 5; a byddant yn cyfrif neu'n dangos dau wrthrych. Byddant yn dechrau cymharu priodweddau ffisegol gwrthrychau. Byddant yn dangos diddordeb mewn safle a'r berthynas rhwng gwrthrychau. Byddant yn didoli ac yn paru gwrthrychau neu luniau drwy adnabod tebygrwydd.

## Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio mathemateg mewn gweithgareddau bob dydd a gweithgareddau chwarae, gan ymateb yn briodol i eirfa allweddol a chwestiynau. Byddant yn ymuno ag eraill wrth gyfrif y rhifau rhwng 1 a 10 yn beiriannol. Byddant yn adnabod ac yn enwi'r rhifau rhwng 1 a 3, ac yn cyfrif hyd at dri o wrthrychau'n ddibynadwy. Byddant yn cofnodi rhifau drwy wneud marciau neu dynnu lluniau i ddechrau. Byddant yn dechrau datblygu dealltwriaeth o gyfatebiaeth un i un drwy baru gwahanol wrthrychau neu luniau. Byddant yn deall y cysyniad o 'un yn fwy'. Yn eu gweithgareddau chwarae, byddant yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiben arian. Byddant yn dangos dealltwriaeth o eiriau, arwyddion a symbolau sy'n disgrifio maint a safleoedd. Byddant yn didoli gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf, a byddant yn ymwybodol o nodweddion gwrthgyferbyniol.

## Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio geiriau cyfarwydd mewn sefyllfaoedd ymarferol. Byddant yn gallu cyfrif y tu hwnt i 10 yn beiriannol, a byddant yn gallu dechrau cyfrif o rif bach penodol. Byddant yn gwneud symiau adio syml gan ddefnyddio rhifau rhwng 1 a 5, ac yn deall bod sero yn golygu dim. Byddant yn adnabod rhifolion rhwng 1 a 9 ac yn ceisio eu cofnodi. Byddant yn deall y cysyniad o 'un yn llai'. Byddant yn cymharu ac yn trefnu dau neu ragor o wrthrychau drwy eu harsylwi'n uniongyrchol. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o amser mewn perthynas â'u gweithgareddau bob dydd. Byddant yn siarad am batrymau a dilyniannau ailadroddus syml, neu'n eu dangos, yn eu hadnabod a'u copïo. Wrth ddidoli, byddant yn gwybod pan fydd gwrthrych yn wahanol a phan na fydd yn perthyn i gategori cyfarwydd.

## Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn defnyddio mathemateg fel rhan annatod o weithgareddau'r ystafell ddosbarth. Byddant yn cyfrif, yn trefnu, yn adio ac yn tynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych. Byddant yn cyfrif tuag ymlaen a thuag yn ôl mewn camau o wahanol faint, gan ddechrau o wahanol rifau. Byddant yn darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10. Byddant yn defnyddio iaith bob dydd i gymharu a disgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau rheolaidd, ac i drafod eu gwaith. Byddant yn cynrychioli eu gwaith gyda gwrthrychau neu luniau. Byddant yn mesur ac yn trefnu gwrthrychau gan eu cymharu'n uniongyrchol, ac yn rhoi digwyddiadau yn eu trefn. Byddant yn ymwybodol o werth ddarnau arian gwahanol. Byddant yn adnabod, yn defnyddio ac yn llunio patrymau ailadroddus syml. Byddant yn didoli ac yn dosbarthu gwrthrychau, gan ddangos y maen prawf y maent wedi'i ddefnyddio.

## Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn dewis y weithred fathemategol briodol wrth ddatrys problemau'n ymwneud ag adio neu dynnu rhifau. Byddant yn defnyddio strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau'n ymwneud â rhifau, arian a mesuriadau. Byddant yn cyfrif setiau o wrthrychau'n ddibynadwy, ac yn galw ffeithiau rhifau rhwng 1 a 10 i gof er mwyn adio neu dynnu rhifau mwy o faint. Byddant yn gosod rhifau hyd at 100 yn eu trefn. Byddant yn adnabod ac yn defnyddio haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol. Byddant yn defnyddio unedau ansafonol a safonol cyffredin i fesur hyd a màs. Byddant yn siarad am eu gwaith gan ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd, a byddant yn cyflwyno eu gwaith gan ddefnyddio diagramau syml a symbolau. Byddant yn adnabod dilyniannau rhif. Byddant yn gwahaniaethu rhwng symudiadau syth a throeon, ac yn adnabod hanner troeon, chwarter troeon ac onglau sgwâr mewn troeon. Ar ôl casglu gwybodaeth, byddant yn cofnodi eu canlyniadau mewn rhestrau, tablau, diagramau a graffiau bloc syml. Byddant yn didoli gwrthrychau ac yn eu dosbarthu gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf.

## Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen

Bydd y plant yn trefnu eu gwaith ac yn rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu gwahanol. Byddant yn defnyddio gwerth lle mewn rhifau hyd at 1 000 i lunio brasamcanion. Byddant yn datblygu rhagor o strategaethau pen ar gyfer adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys o leiaf dau ddigid. Byddant yn galw tablau lluosi 2, 3, 4, 5 a 10 i gof er mwyn datrys problemau sy'n ymwneud â lluosi a rhannu rhifau cyfan, gan gynnwys y problemau hynny sy'n gadael gweddill. Byddant yn defnyddio unedau metrig safonol i fesur hyd, cynhwysedd, màs ac amser. Byddant yn defnyddio nodiant degol wrth gofnodi arian, ac yn adnabod rhifau negyddol yng nghyd-destun tymheredd. Byddant yn siarad am eu gwaith ac yn ei egluro. Byddant yn defnyddio ac yn dehongli symbolau a diagramau mathemategol.